



Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Blynyddol
Cyngor Bro Morgannwg
2018 - 2019

**Gallwch ofyn am y ddogfen hon mewn fformatau eraill.
Er enghraifft: ffont mwy; ar bapur lliw gwahanol.**

**Gallwch ofyn am y ddogfen hon yn Saesneg.
Fe welwch fersiwn Saesneg ar ein gwefan.**

Cynnwys

Cyflwyniad.....	1
Cefndir	1
Camau a gymerwyd i nodi a chasglu gwybodaeth berthnasol	3
Rhesymau dros beidio â chasglu gwybodaeth berthnasol.....	5
Datganiad ar effeithiolrwydd y camau a gymerwyd i ddiwallu bob un o'n hamcanion cydraddoldeb	5
Materion eraill sy'n berthnasol i'r ddyletswydd gyffredinol a'r dyletswyddau penodol.....	28
Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb	28
Hyfforddiant Cydraddoldeb.....	29
Caffael	29
Cynllun Hyderus o ran Anabledd.....	30
Pencampwr Amrywiaeth Stonewall	32
Ymgyrch Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth.....	33
Fforwm Adrodd a System Adrodd Sipsiwn a Theithwyr	34
Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig (Cyngor ar Awtistiaeth i Oedolion gynt).....	35
Fforwm Strategaeth 50+ y Fro.....	36
Datblygu'r Celfyddydau	39
Gwasanaethau Hamdden	41
Gwasanaethau Etholiadol	51
Rhaglen Dysgu Cymraeg yn y Fro	52
Gwerthuso Swyddi	55
Y Cynllun Gweithlu (2016 - 2020)	56
Gwybodaeth benodol ynghylch cyflogaeth, gan gynnwys gwybodaeth ar hyfforddiant a chyflog	57
I gael rhagor o wybodaeth.....	66

Cyflwyniad

Mae'n rhaid i ni adrodd ar y cynnydd tuag at gyflawni ein hamcanion cydraddoldeb a materion cydraddoldeb eraill bob blwyddyn erbyn 31 Mawrth ar gyfer perfformiad yn y flwyddyn flaenorol. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi manylion am ein gwaith cydraddoldeb rhwng Ebrill 2018 a Mawrth 2019.

Rydym yn gwneud hyn er mwyn cyflawni ein dyletswyddau o dan:

- Deddf Cydraddoldeb 2010;
- Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (a elwir y 'ddyletswydd gyffredinol'); a
- y dyletswyddau penodol i Gymru.

Rydym yn dweud wrthyf sut rydym wedi casglu a defnyddio gwybodaeth i:

- ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon;
- datblygu cydraddoldeb cyfle; a
- maethu cysylltiadau da.

Rydym hefyd yn dweud wrthyf am:

- sut rydym yn dod ymlaen gyda'n hamcanion cydraddoldeb;
- y bobl a gyflogwn; a
- gwaith cydraddoldeb arall.

Cefndir

Rydym wedi disgrifio ein prif waith cydraddoldeb yn ein [Cynllun Cydraddoldeb Strategol](#).

Cytunwyd ar y cynllun hwn ym mis Mawrth 2016. Mae'n seiliedig ar ein cynllun gwreiddiol o 2012. Roedd nifer o bethau roedd yn rhaid i ni wneud i ddatblygu'r cynllun cyntaf. Rydym yn rhestru'r prif gamau isod.

- Fe edrychon ni ar faint o wybodaeth yr oedd gennym ar y bobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau. Roedden ni eisiau gwybod pa grwpiau gwarchoddedig oedd yn defnyddio ein gwasanaethau.
- Fe wnaethon ni gwrdd â sefydliadau lleol i weld a oedd meysydd y gallwn ni weithio arnyn nhw gyda'n gilydd.
- Fe edrychon ni ar gynlluniau eraill i weld os oedd ganddyn nhw gamau oedd angen bod yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Roedd y rhain yn cynnwys y Cynllun Corfforaethol a'r Cynllun Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.
- Fe drefnon ni ddigwyddiadau i ni gwrdd â sefydliadau eraill sydd â diddordeb yn anghenion y grwpiau gwarchoddedig. Fe aethon ni i'w cyfarfodydd nhw os nad oedden nhw'n gallu dod i'n rhai ni.
- Fe ymgynghoron ni â'r cyhoedd, staff ac undebau masnach.
- Fe siaradon ni â phobl ynglŷn â'r hyn y dylen ni ei flaenoriaethu.

Fe wnaeth hyn ein helpu i benderfynu ar ein hamcanion cydraddoldeb. Mae'r rhain yn rhan bwysig o'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

Fe wnaethon ni ymgynghori â phobl eto tua diwedd 2015 i'n helpu ni i benderfynu sut i ddiweddarau'r cynllun. Y brif neges oedd parhau i weithio ar y meysydd yr ydym eisoes yn gweithio arnynt. Rydym wedi datblygu'r rhain gan ddefnyddio ymchwil mwy diweddar megis 'Is Wales Fairer' gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Rydym hefyd wedi gwneud cysylltiadau gyda'n Cynllun Corfforaethol.

I sicrhau ein bod yn cyflawni'r amcanion cydraddoldeb, fe wnaethon ni roi camau mewn cynlluniau gwasanaeth. Mae'r cynlluniau hyn yn arwain gwaith pob gwasanaeth (megis Gwasanaethau Tai, Gweladwy a Chymdeithasol). Mae'n rhaid i bob gwasanaeth fonitro cynnydd gyda'r camau hyn ac adrodd ar hyn.

Mae Arweinydd y Cyngor yn arwain ar faterion cydraddoldeb. Mae cyfarwyddwyr yn arwain ar eu gwasanaeth eu hunain.

Rydym yn cael gwybodaeth am y materion a'r canllawiau diweddaraf mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys trwy'r rhwydwaith Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

Camau a gymerwyd i nodi a chasglu gwybodaeth berthnasol

Rydym wedi bod yn casglu gwybodaeth am bwy sy'n defnyddio ein gwasanaethau am beth amser. Nid ydym bob amser wedi gwneud hyn yn yr un ffordd ar draws y Cyngor. Hefyd, nid ydym wedi casglu data ar yr holl grwpiau gwarchoddedig.

Am y rheswm hwn, yn 2011, fe ddyfeision ni ffurf newydd gan siarad â rheolwyr i esbonio pa mor bwysig yw ei ddefnyddio. Fe wnaethon ni annog gwasanaethau i wella sut maen nhw'n defnyddio'r wybodaeth hon i'w helpu i gynllunio eu gwaith i ddiwallu anghenion pobl yn well. Rydym yn parhau i wneud hyn.

Pan ddechreuon ni, fe edrychon ni ar wybodaeth gan wasanaethau allweddol:

- Llyfrgelloedd;
- Tai;
- Diogelu'r Cyhoedd;
- Budd-dal Tai; a
- Gwasanaethau Cymdeithasol.

Yn yr adroddiad eleni, rydym yn adrodd ar y gwasanaethau a ganlyn:

- Datrysiadau Tai
- Cefnogi Pobl
- Budd-daliadau Tai a Gostyngiad yn y Dreth Gyngor
- Refeniw a Budd-daliadau
- Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir

- Tîm Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc
- Cyfathrebu
- Anghenion Dysgu Ychwanegol a Lles, Dysgu a Sgiliau
- Gwasanaeth Llyfrgelloedd a Gwybodaeth
- Dysgu Oedolion yn y Gymuned
- Cyrsiau'r Fro, Dysgu Oedolion yn y Gymuned
- Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc, Gwasanaethau Cymdeithasol
- Gwasanaethau Oedolion, Gwasanaethau Cymdeithasol
- Y Gwasanaeth Cofrestru
- Adfywio a Chynllunio – Ynys y Barri, Cosmeston, yr Arfordir Treftadaeth, y Grant Cyfleusterau i'r Anabl
- Cwynion Corfforaethol

Pan rydym yn edrych ar y wybodaeth a gasglwyd, rydym yn ystyried:

- y data a gasglwyd dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf;
- y systemau a ddefnyddiwyd i gasglu'r data; a
- sut mae gwasanaethau'n defnyddio'r wybodaeth hon i wneud gwelliannau.

Mae hyn yn helpu rheolwyr i nodi bylchau yn y wybodaeth a chymryd camau priodol.

I egluro pam fod angen i reolwyr gasglu'r wybodaeth, rydym yn defnyddio canllawiau gan Stonewall. Gallwch weld y canllaw yn [Atodiad 1](#). Mae'r ffurflen a ddefnyddiom i gasglu'r wybodaeth yn [Atodiad 2](#).

Gallwch gael y wybodaeth cydraddoldeb y mae gwasanaethau wedi'i chasglu yn [Atodiad 4](#). Mae pob gwasanaeth yn dweud sut maen nhw wedi defnyddio'r wybodaeth i ddiwallu tri nod y ddyletswydd gyffredinol.

Mae'r ffurflen a ddefnyddiwn i gasglu gwybodaeth ar gyfer yr adroddiad hwn yn annog gwasanaethau i ddangos sut maent wedi defnyddio'r wybodaeth i wneud gwelliannau i wasanaethau.

Rhesymau dros beidio â chasglu gwybodaeth berthnasol

Mae rhai o'r rhesymau dros beidio â chasglu gwybodaeth yn cynnwys:

- staff yn gofyn i ddefnyddwyr am wybodaeth bersonol wyneb yn wyneb;
- nad oedd defnyddwyr am gwblhau ffurflen arall yn ychwanegol i ffurflen gais hir;
- pryder nad yw arolygon cyfyngedig yn adlewyrchu darlun cywir;
- ddim gyda systemau i gasglu'r wybodaeth.

Rydym yn annog rheolwyr i egluro pa mor bwysig yw'r wybodaeth hon wrth wella gwasanaethau.

Datganiad ar effeithiolrwydd y camau a gymerwyd i ddiwallu bob un o'n hamcanion cydraddoldeb

Dyma amlinelliad byr o sut rydym wedi datblygu ein hamcanion gwreiddiol. Gallwch gael manylion llawn hyn yn ein [Cynllun Cydraddoldeb Strategol](#) cyntaf.

- Fe wnaethon ni ddefnyddio ymchwil genedlaethol i'n helpu i ddeall y materion. Er enghraifft, fe edrychom ni ar yr adroddiadau 'How Fair is Wales', a 'Not Just Another Statistic'. Y Comisiwn Hawliau Dynol a Chydraddoldeb a gynhyrchoedd yr adroddiadau hyn.
- Fe edrychom ni ar p'un a oedd gennym unrhyw wybodaeth yn y Cyngor i roi mwy o fanylion i ni.

- Fe siaradon ni â grwpiau ynghylch lles y grwpiau gwarchoddedig.
- Fe ymgynghoron ni â'n staff ein hunain a'r cyhoedd.
- Fe gytunon ni ar yr amcanion cydraddoldeb y bydden ni'n gweithio arnynt am y 4 blynedd nesaf.

I adolygu ein hamcanion, edrychon ni ar ymchwil mwy diweddar megis 'Is Wales Fairer' gan y Comisiwn Hawliau Dynol a Chydraddoldeb. Fe wnaethon ni ymgysylltu ac ymgynghori hefyd.

Yn dilyn hyn, fe gytunon ni ar ein hamcanion cydraddoldeb. Rydym yn dangos pa waith rydyn ni wedi'i wneud ar y rhain isod.

Amcan Cydraddoldeb 1:

Casglu a dadansoddi data gwasanaeth fesul nodwedd warchoddedig er mwyn i wasanaethau fodloni anghenion amrywiol y cyhoedd

Beth rydym wedi'i wneud:

Rydyn ni wedi cynyddu nifer y gwasanaethau sy'n casglu a dadansoddi data yn ôl nodwedd warchoddedig. Ar gyfer y flwyddyn adrodd hon, mae gennym ddata a gwybodaeth am un ar bymtheg o wahanol wasanaethau, sy'n welliant sylweddol ar ein man cychwyn o bum gwasanaeth.

Beth ydym wedi'i ddysgu?

Mae gwasanaethau yn edrych ar y wybodaeth hon i weld sut allan nhw wella gwasanaethau i bobl mewn grwpiau gwarchoddedig. Mae gwasanaethau hefyd yn gallu defnyddio'r wybodaeth hon wrth feddwl am yr effaith ar gydraddoldeb wrth wneud newidiadau i'w gwasanaethau.

Beth yw'r heriau?

Gall fod amrywiaeth o faterion sy'n effeithio ar ba un a yw gwasanaethau'n casglu ac yn dadansoddi data ar nodweddion gwarchoddedig ei ddefnyddwyr gwasanaethau.

Weithiau nid oes gan wasanaethau'r systemau i gasglu gwybodaeth a gall hyn fod yn ddwys o ran adnoddau i'w ddatrys.

Gall staff fod yn amharod i ofyn i bobl am y math hwn o wybodaeth, er bod y wybodaeth hon yn gyfrinachol, yn enwedig pan fyddant yn teimlo bod y cwestiynau monitro yn personol iawn. Nid ydynt bob amser yn deall sut y gall gofyn cwestiynau o'r fath helpu i: ddatblygu gwasanaethau fel eu bod yn diwallu anghenion amrywiol; a chwalu'r rhwystrau i bobl sy'n defnyddio eu gwasanaethau.

Pan fydd defnyddwyr gwasanaeth yn cwblhau ffurflenni i gael mynediad i wasanaeth, gallant fod yn amharod i lenwi ffurflen ychwanegol gyda mwy o wybodaeth. Unwaith eto, gall hyn atal Gwasanaethau rhag gofyn am wybodaeth am gydraddoldeb.

Beth sydd angen i ni ei wneud?

Mae angen i ni barhau i hyrwyddo i wasanaethau a'r cyhoedd y rhesymau pam rydym yn casglu'r wybodaeth hon a sut y gellir ei defnyddio er eu lles.

Mae angen i ni helpu gwasanaethau i ddadansoddi'r wybodaeth hon yn well a'i defnyddio i wneud gwelliannau ar gyfer grwpiau gwarchoddedig.

Amcan Cydraddoldeb 2:

Cau bylchau cyrhaeddiad plant mewn grwpiau gwarchoddedig

Beth rydym wedi'i wneud:

Rydym wedi canolbwyntio ar gyrhaeddiad y grwpiau canlynol: Disgyblion Sipsiwn, Roma a Theithwyr; plant sy'n derbyn gofal gan ein hawdurdod lleol; plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol; disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim; a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.

Beth ydym wedi'i ddysgu?

Yn gyffredinol, mae canlyniadau perfformiad wedi bod yn dda ac yn cymharu'n dda â chyfoedion ledled Cymru.

Beth yw'r heriau?

Mae angen monitro lefelau cyrhaeddiad yn rheolaidd a chynllunio camau priodol i gefnogi gwelliannau.

Beth sydd angen i ni ei wneud?

Mae bwlch yn dal i fodoli ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim ac mae lleihau hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth.

Gwaharddiadau Ysgol

Beth rydym wedi'i wneud:

Ochr yn ochr ag ysgolion y Cyngor, mae'r Tîm Gwella Ymddygiad, y Gwasanaeth Ieuenctid, y Gwasanaeth Seicoleg Addysg, a'r Tîm Allgymorth Anhwylder Sbectrwm Awtistig o Ysgol y Deri oll yn gweithio i gefnogi disgyblion a allai fod mewn perygl o gael eu gwahardd.

Beth ydym wedi'i ddysgu?

Bu gostyngiad bach mewn gwaharddiadau disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig a chynnydd bach mewn gwahardd disgyblion â Saesneg fel iaith ychwanegol. Cafodd mwy o fechgyn na merched eu gwahardd. Mae bechgyn tua 4 gwaith yn fwy tebygol o gael eu gwahardd na merched.

Mewn ysgolion uwchradd, gostyngodd canran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig a waharddwyd gan fwy na 10% rhwng 2016/17 a 2017/18. Arhosodd cyfraddau grwpiau eraill yn debyg dros yr un cyfnod.

Mewn ysgolion cynradd, cynyddodd canran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig a gafodd eu gwahardd o bron 10% rhwng 2016/17 a 2017/18. Roedd cyfran y disgyblion â Saesneg fel iaith ychwanegol a waharddwyd wedi dyblu bron yn ystod yr un cyfnod.

Beth yw'r heriau?

Mae canran y disgyblion sy'n agored i niwed a waharddwyd o ysgolion prif ffrwd y Fro wedi parhau'n gyson dros y 2 flynedd ddiwethaf. Fodd bynnag, mae cyfraddau gwahardd wedi cynyddu ar gyfer grwpiau penodol fel y disgrifiwyd uchod. Er enghraifft, mae cyfran y disgyblion sydd â Saesneg fel iaith ychwanegol a waharddwyd wedi dyblu bron.

Beth sydd angen i ni ei wneud?

Mae angen i waith partneriaeth rhwng ysgolion a'r timau priodol barhau i leihau cyfraddau gwahardd gymaint â phosibl, yn enwedig ar gyfer grwpiau lle mae cyfraddau gwahardd yn uwch.

Amcan Cydraddoldeb 3:

Gwneud dogfennau cyhoeddus yn haws i bobl eu darllen a'u deall

Beth rydym wedi'i wneud:

Mae'r Cyngor yn codi ymwybyddiaeth o ganllawiau iaith glir. Mae canllaw iaith a steil clir ar gael i staff gyfeirio ato ar fewnrwyd y Cyngor. Ceir hefyd arweiniad i ramadeg, geiriadur iaith glir, a chanllaw i atalnodi.

Mae modiwl e-ddysgu yn ymdrin â hanfodion iaith glir. Mae'n rhoi gwybodaeth am gynllunio ymlaen llaw, yn osgoi iaith gymhleth, yn glir ac yn dangos enghreifftiau.

Beth ydym wedi'i ddysgu?

Ceir gwasanaethau sy'n defnyddio dogfennau hawdd eu darllen, yn ogystal ag ysgrifennu mewn iaith glir. Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnwys Gwasanaethau Cymdeithasol, Chwaraeon Anabledd, Gwasanaethau Rheoleiddio a Rennir, Budd-daliadau Tai a Gostyngiad y Dreth Gyngor, Refeniw a Budd-daliadau. Lle mae Gwasanaethau wedi nodi angen penodol, maent yn fwy tebygol o feddwl am y ffordd y maent yn cyfathrebu â defnyddwyr gwasanaeth?

Beth yw'r heriau?

Mae angen meddwl mwy am ysgrifennu mewn iaith glir ac mae'n sgil y mae'n rhaid i bobl ei ddatblygu. Pan fydd staff o dan bwysau gwaith eraill, gall fod yn anodd dod o hyd i'r amser i ddatblygu'r sgiliau hyn ac ysgrifennu'n fwy amlwg.

Beth sydd angen i ni ei wneud?

Rydym yn datblygu fframwaith cymhwysedd craidd. Mae gennym gymhwysedd cyfathrebu a fydd yn cynnwys defnyddio iaith glir. Bydd asesu yn erbyn y cymhwysedd hwn yn digwydd yn ystod y broses arfarnu. Bydd cymorth ar gael ar gyfer dysgu pellach lle bo angen.

Amcan Cydraddoldeb 4:

Helpu staff i wybod mwy am gyfraith cydraddoldeb, a staff a'r cyhoedd i ddeall anghenion grwpiau gwarchoddedig

Beth rydym wedi'i wneud:

Rydym yn parhau i gynnig hyfforddiant ymwybyddiaeth gydraddoldeb. Mae hyn yn cynnwys codi ymwybyddiaeth gyffredinol, hyfforddiant asesu'r effaith ar gydraddoldeb, a chodi ymwybyddiaeth o anghenion grwpiau penodol fel y gymuned fyddar. Mae modiwlau hyfforddi e-ddysgu hefyd ar gael sy'n cwmpasu pynciau fel ymwybyddiaeth gydraddoldeb, asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb, ac ymwybyddiaeth o drawsrywedd.

Rydym yn defnyddio digwyddiadau fel Mis Hanes Pobl Dduon, Mis Hanes LHDT, a Diwrnod Iechyd Meddwl y Byd i godi ymwybyddiaeth o faterion o fewn y gweithlu. Rydym yn gwneud hyn drwy roi erthyglau am y digwyddiadau hyn ar ein mewnwyd, gan egluro beth ydynt a'r rhan y gall staff ei chwarae i wneud gwahaniaeth cadarnhaol.

Rydym wedi sefydlu rhwydwaith i staff a chynghreiriaid lesbiaidd, hoyw, deurywiol, a thrawsrywiol o'r enw GLAM. Mae GLAM yn nodi achlysuron yn rheolaidd fel: Mis Manes LHDT; IDAHOBIT (Diwrnod Rhyngwladol yn Erbyn Homoffobia, Biffobia, Rhyngrywiaeth a Thrawsffobia); Diwrnod Gwelededd Deurywiol; a Diwrnod Gwelededd Trawsryweddol.

Rydym yn codi ymwybyddiaeth y cyhoedd drwy gyfryngau cymdeithasol, digwyddiadau, a gweithio gyda sefydliadau eraill. Rydym wedi cynnwys materion fel iechyd meddwl, cyfeiriadedd rhywiol, hunaniaeth o ran rhywedd ac anabledd.

Beth ydym wedi'i ddysgu?

Mae hyfforddiant yn helpu ein staff i ddeall y problemau y mae pobl â nodweddion gwarchoddedig yn eu hwynebu. Mae'r staff wedi bod yn gadarnhaol ynglŷn â'r hyfforddiant. Mae'n eu helpu i ddeall sut i ddarparu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion unigol defnyddwyr gwasanaeth.

Beth yw'r heriau?

Gall fod yn anodd i staff gymryd amser i ffwrdd o'u swyddi i fynychu hyfforddiant neu ddigwyddiadau a chwblhau modiwlau e-ddysgu. Mae hyn yn arbennig o wir am weithwyr rheng flaen.

Beth sydd angen i ni ei wneud?

Rydym wedi lleihau hyd y cyrsiau hyfforddi i ddwy awr yn hytrach na diwrnod o hyd. Mae hyn yn helpu rheolwyr i ryddhau staff ar gyfer hyfforddiant.

Mae rhai aelodau o staff bellach yn gallu cyrchu modiwlau e-ddysgu o'u dyfeisiau eu hunain lle nad oes ganddynt fynediad at gyfrifiadur yn y gwaith. Mae angen i ni sicrhau bod hyn ar gael i fwy o staff.

Mae angen i ni wneud y modiwlau e-ddysgu yn orfodol i staff sydd â mynediad atynt er mwyn gwneud yn siŵr bod mwy o staff wedi cael hyfforddiant cydraddoldeb.

Mae angen i ni adolygu ein proses gynefino er mwyn sicrhau bod gan staff wybodaeth am faterion cydraddoldeb o ddechrau eu cyflogaeth.

Amcan Cydraddoldeb 5:

Ceisio barn grwpiau gwarchodedig ar newidiadau arfaethedig i bolisi, cyllidebau a gwasanaethau

Beth rydym wedi'i wneud:

Mae gennym broses asesu effaith ar gydraddoldeb ar waith. Cafodd hyn ei adolygu a'i ail-lansio, gyda dolenni i ganllawiau, esiamplau, ac ymchwil i helpu swyddogion i gynnal asesiadau effeithiol.

Mae Tîm Cyfathrebu'r Cyngor yn cynnig cyngor ar ymgysylltu i'n Gwasanaethau. Mae'r Tîm Cyfathrebu yn cadw rhestr o sefydliadau y gallwn siarad â hwy am anghenion grwpiau gwarchodedig i helpu gyda'r broses hon. Mae hyn yn helpu gwasanaethau i ddod o hyd i safbwyntiau ac anghenion grwpiau gwarchodedig fel bod y rhain yn llunio polisiau, penderfyniadau a gwasanaethau.

Rydym yn cynnal gwaith ymgysylltu ac ymgynghori helaeth ar gynlluniau a pholisïau pwysig fel y Cynllun Corfforaethol, y Gyllideb a'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

Mae gennym Fforwm Cydraddoldeb Ymgynghorol sy'n cynnwys ystod o sefydliadau sy'n cynrychioli buddiannau grwpiau gwarchodedig. Mae'n cyfarfod ddwywaith y flwyddyn ac yn rhoi cyfle i gyfnewid gwybodaeth am faterion cydraddoldeb.

Beth ydym wedi'i ddysgu?

Pan fyddwn yn ymgysylltu â grwpiau gwarchodedig, maent yn rhoi llawer o wybodaeth i ni am yr hyn y maent am ei gael gan ein gwasanaethau a sut y gellid eu gwella i ddiwallu eu hanghenion yn well. Rydym yn gallu defnyddio'r wybodaeth hon i lywio ein cynlluniau a'n polisiau.

Beth yw'r heriau?

Gall fod yn anodd i grwpiau sy'n ceisio ymgysylltu â hwy gynrychioli buddiannau'r holl grwpiau gwarchoddedig.

Mae ymgysylltu yn cymryd amser a gall fod yn anodd dod o hyd i'r amser a'r adnoddau staff i ymgysylltu ag amrywiaeth o grwpiau gwarchoddedig. Mae pwysau hefyd ar nifer cymharol fach o grwpiau i ymateb i geisiadau i ymgysylltu ac ymgynghori.

Beth sydd angen i ni ei wneud?

Byddwn yn parhau i gadw golwg ar sefydliadau lleol sy'n gallu ymgysylltu â ni ar newidiadau arfaethedig i bolisi, cyllidebau a gwasanaethau.

Byddwn yn hyrwyddo pwysigrwydd siarad â defnyddwyr gwasanaethau ar gam cynnar yn eu cynigion er mwyn sicrhau bod eu safbwyntiau'n cael eu hystyried a bod newidiadau i'r gwasanaeth yn ystyried y wybodaeth hon.

Amcan Cydraddoldeb 6:

Annog pobl â nodweddion gwarchoddedig i adrodd am droseddau casineb, aflonyddwch a gwahaniaethu

Cydlyniant Cymunedol

Beth rydym wedi'i wneud:

Mae'r Cyngor yn cydlynu Grŵp Cydlyniant Cymunedol gydag Aelodau yn dod o'r gymuned a chynrychiolwyr o'r Tîm Diogelwch Cymunedol, Heddlu De Cymru, a Gwirfoddolwyr Ieuencid yr Heddlu. Mae'n cyfarfod bob chwarter i fonitro ac ymateb i densiynau yn y Fro fel rhan o bartneriaeth aml-asiantaeth.

Mae'r Grŵp Cydlyniant Cymunedol yn edrych ar adroddiadau ar droseddau casineb bob tri mis. Mae'r adroddiadau hyn yn cynnwys gwybodaeth am nodweddion gwarchoddedig. Mae ganddynt hefyd ddata ac astudiaethau achos ar ymddygiad gwrthgymdeithasol, stopio a chwilio, a'r defnydd o rym. Mae'r Cydlynnydd Cydlyniant Cymunedol a'r Swyddog Trosedd Casineb yn cwrdd yn rheolaidd i fonitro tensiynau yn y gymuned.

Rhoddodd y Cydlynnydd Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol adborth i Fforwm Cydraddoldeb Hiliol Cymru gyfan mewn perthynas â chronfa troseddau casineb hil y dyfodol Llywodraeth Cymru. Gweithiodd y Cydlynnydd ar y cyd â sefydliadau cymwys i ddatblygu ceisiadau lleol i sicrhau bod dioddefwyr troseddau casineb yn cael eu cefnogi'n briodol.

Mae Byrddau CONTEST Bro Morgannwg a Chaerdydd (Gwrthderfysgaeth) wedi uno. Mae Bwrdd CONTEST yn sicrhau bod swyddogion allweddol yn deall tensiynau cymunedol posibl a thueddiadau yn ymwneud ag eithafiaeth. Yn haf 2018, cytunodd y Bwrdd i ddatblygu proses 'Channel' ranbarthol. Mae 'Channel' yn broses amlasiantaeth ymyrraeth gynnar a gynlluniwyd i ddiogelu pobl agored i niwed rhag cael eu tynnu i mewn i ymddygiad eithafol treisgar neu derfysgaeth. Mae 'Channel' yn gweithio mewn ffordd debyg i bartneriaethau diogelu presennol sydd wedi'u hanelu at amddiffyn pobl agored i niwed.

Beth ydym wedi'i ddysgu?

Mae'n bwysig gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill a'r gymuned. Cymerwyd camau i hyrwyddo'r math hwn o weithio.

Mae'r Grŵp Cydlyniant Cymunedol wedi rhoi cynllun datblygu ar waith ac mae'n defnyddio llwyfannau cyfryngau cymdeithasol ar-lein a chymdeithasol i gael gwybodaeth am yr hyn sy'n digwydd yn y gymuned. Mae wedi creu cysylltiadau â sefydliadau partner newydd.

Mae'r Swyddog Trosedd Casineb De Cymru wedi cyflwyno sesiynau allgymorth mewn ysgolion a charchardai i hyrwyddo ymwybyddiaeth o drosedd casineb a sut i adrodd am ddigwyddiadau.

Bydd y broses ranbarthol 'Channel' yn helpu i rannu arbenigedd ar draws y rhanbarth ac yn cefnogi cyfnewid adnoddau a gwybodaeth. Yn ei dro, bydd hyn yn meithrin gwell dealltwriaeth o dueddiadau rhanbarthol.

Cefnogodd yr Uned Cydlyniant Cymunedol ac Ymgysylltu Cymunedol Ranbarthol clwb Criced Morgannwg i sicrhau cyllid i gyflwyno gweithdai i bobl ifanc. Derbyniasant gyllid drwy gymorth adran Wrtheithafiaeth y Swyddfa Gartref, dan eu rhaglen 'Adeiladu Prydain Cryf Gyda'n Gilydd'. Mae hyn wedi ariannu cyfres o weithdai 'Tu Hwnt i'r Ffiniau', gan ganolbwyntio ar amrywiaeth o themâu sy'n gysylltiedig â throseddau casineb, hawliau dynol ac eithafiaeth.

Beth yw'r heriau?

Yr her yw cynnal ymwybyddiaeth gyfredol o faterion yn y gymuned a datblygu a chyflwyno ymatebion priodol.

Beth sydd angen i ni ei wneud?

Rhwng 2019 a 2021, bydd gwaith y Grŵp Cydlyniant Cymunedol i atal troseddau casineb yn y Fro yn cael ei ddatblygu ymhellach gan y Swyddog Cydlyniant sydd newydd ei benodi, sydd wedi'i leoli yn y Tîm Diogelwch Cymunedol yng Ngorsaf Heddlu'r Barri. Bydd y Tîm Diogelwch Cymunedol yn parhau i weithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill a'r gymuned er mwyn sicrhau eu bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf a'u bod yn ymateb yn briodol i heriau cydlyniant cymunedol.

Atal Bwlio mewn Ysgolion

Beth rydym wedi'i wneud:

Mae'r Cyngor yn gweithio gyda'n hysgolion i leihau bwlio. Rydym yn canolbwyntio ar grwpiau agored i niwed sy'n fwy tebygol o ddiodef bwlio. Rydym wedi cyflawni hyn drwy'r canlynol:

- darparu 'pecyn cymorth adeiladu gallu' lles i ysgolion i ddelio â bwlio;
- monitro achosion o fwlio mewn ysgolion;
- rhannu'r wybodaeth hon ag Ymgynghorwyr Her;
- monitro achosion o fwlio yn ôl nodweddion gwarchoddedig;
- datblygu model gwrth-fwlio enghreifftiol y mae pob ysgol wedi'i fabwysiadu;
- cefnogaeth ac ymweliadau herio ag ysgolion er mwyn edrych ar ddata, gydag ymweliadau adolygu os oes angen;
- awgrymiadau ar gyfer gweithgareddau ar gyfer wythnos atal bwlio;
- hyfforddiant diogelu i bob ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am fwlio a bwlio ar-lein;
- datblygu Pecyn Cymorth Trawsrywiol i roi arweiniad i ysgolion ar y risg o fwlio ar gyfer y grŵp hwn o bobl ifanc, gan amlinellu sut y gall ysgolion atal hyn.

Mae'r elfennau hyn yn canolbwyntio'n glir ar blant a phobl ifanc yn teimlo'n ddiogel mewn ysgolion.

Rydym yn casglu ac yn monitro data ar nifer yr achosion o fwlio yn ôl nodweddion gwarchoddedig er mwyn nodi a oes tueddiadau y mae angen i ni ddelio â nhw.

Mae Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth a Stonewall Cymru wedi darparu hyfforddiant sy'n pwysleisio bod gan blant a phobl ifanc yn aml nifer o nodweddion gwarchoddedig a bod hyn yn cynyddu'r perygl o fwlio.

Beth ydym wedi'i ddysgu?

Nid ydym wedi nodi unrhyw dueddiadau o'r data cyfredol y mae angen gweithredu arnynt. Mae hyn yn rhoi sicrwydd bod yr amrywiaeth o ymyriadau sy'n cael eu defnyddio yn gweithio. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod data cenedlaethol a rhai'r DU yn dangos bod rhai grwpiau yn wynebu mwy o risg o fwlio:

- disgyblion sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol
- disgyblion anabl
- disgyblion sy'n lesbiaid, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol
- disgyblion o leiafrifoedd ethnig
- disgyblion o gefndir crefyddol.

Mae'r cymorth y mae'r Cyngor wedi'i roi i ysgolion wedi'u helpu i gefnogi plant a phobl ifanc. Mae'r Arolygiaeth Ysgolion, Estyn, wedi cydnabod hyn. O'r ysgolion a arolygwyd ganddi ers 2016, graddiodd Estyn 98% ohonynt fel naill ai'n dda neu'n rhagorol ar gyfer cymorth a chyfarwyddyd lles a gofal.

Beth yw'r heriau?

Mae'r heriau wedi bod fel a ganlyn:

- sicrhau bod pob ysgol yn cwblhau'r ffurflen bwlio bob tymor;
- datblygu dealltwriaeth gyffredin o'r hyn yw bwlio;
- ein gallu i fonitro gweithdrefnau gwrth-fwlio mewn ysgolion;
- Mae nifer yr achosion o fwlio sy'n seiliedig ar hunaniaeth yn isel.

Beth sydd angen i ni ei wneud?

Bydd y Cyngor yn parhau i gydweithio'n agos ag ysgolion er mwyn sicrhau ymwybyddiaeth a chymryd camau i ddelio â bwlio.

Byddwn yn ceisio datblygu'r rhaglenni hyfforddi a chodi ymwybyddiaeth mewn ysgolion gan ddefnyddio trefn fel Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth.

Datblygu polisi gwrth-fwlio enghreifftiol newydd ar gyfer ysgolion mewn ymgynghoriad â phobl ifanc.

Amcan Cydraddoldeb 7:

Canfod ffyrdd newydd o gyrraedd dioddefwyr camdriniaeth a chodi ymwybyddiaeth o wasanaethau camdriniaeth ddomestig yn y gymuned.

Beth rydym wedi'i wneud:

Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â'r gwasanaethau cam-drin domestig arbenigol - Atal Y Fro a Thîm Cefnogi Pobl y Cyngor. Gyda'n gilydd rydym yn sicrhau bod dioddefwyr cam-drin domestig yn gallu cael cymorth, cefnogaeth ac amddiffyniad. Mae hyn yn cynnwys: lloches, tai ail gam a thai gwasgaredig; a mynediad cwrsela i raglenni perthnasol, gan gynnwys cefnogaeth allgymorth.

Rydym yn cyfeirio at wasanaethau arbenigol yn ôl y gofyn, fel:

- BAWSO – gwasanaethau cyffredinol ac arbenigol ar gyfer cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig ar gyfer y rhai yr effeithir gan, neu sy'n wynebu risg o, gam-drin domestig a phob math o drais megis anffurfio organau cenhedlu benywod, priodasau dan orfod, trais ar sail anrhydedd, masnachu mewn pobl a materion caethwasiaeth cyfoes;
- Project Dyn Cymru Ddiogelach - mae'r project yn cynnig cymorth i ddynion heterorywiol, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol sy'n dioddef o gam-drin domestig gan bartner.
- Rainbow Bridge - dyma wasanaeth a gaiff ei gynnal gan Gymorth i Ddioddefwyr sy'n benodol yn rhoi cymorth i ddioddefwyr cam-drin domestig sy'n uniaethu fel lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol;
- Byw Heb Ofn - llinell gymorth gan Lywodraeth Cymru sy'n cynnig gwybodaeth a chynghor am drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Cyflwynir adroddiadau chwarterol a blynyddol i Lywodraeth Cymru ar y Cynllun Cyflawni Rhanbarthol. Rydym yn adrodd ar gynnydd gyda'r Strategaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r

Fro ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2018-2023. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth ar y nodweddion gwarchoddedig. Rydym hefyd yn adrodd i'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol.

Mae Atal y Fro yn hysbysebu eu gwasanaethau trwy'r cyfryngau cymdeithasol, y wasg, a digwyddiadau hyfforddiant ymwybyddiaeth. Mae'n gweithio gyda'r sector statudol a'r trydydd sector i sicrhau bod eu gwasanaethau yn cael eu hysbysebu i gymaint o bobl â phosibl gan gynnwys y Fro wledig.

Mae'r Cyngor yn mynd ati i gefnogi gwaith Fforwm 50+ y Fro i gynyddu amlygrwydd a gwasanaethau ar draws Bro Morgannwg.

Beth ydym wedi'i ddysgu?

Mae'n bwysig codi ymwybyddiaeth o gam-drin yn y cartref drwy'r gymuned gyfan. Gwnawn hyn drwy gynnal hyfforddiant, diwrnodau codi ymwybyddiaeth a gweithgareddau. Rydym yn hysbysebu'r rhain yn eang ledled Bro Morgannwg.

Er enghraifft, cynhelir ymgyrchoedd a digwyddiadau ymwybyddiaeth drwy gydol y flwyddyn ac fe'u targedir o amgylch digwyddiadau penodol yn y calendr megis ymgyrch y Rhuban Gwyn, Diwrnod Rhyngwladol y Menywod, 16 diwrnod o weithredu, Pride, Wythnos Diogelu.

Rydym yn canolbwyntio ar bynciau perthnasol yn ymwneud â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig, a thrais rhywiol. Rydym yn hyrwyddo'r ymgyrchoedd hyn mewn amrywiaeth o ffyrdd: wyneb yn wyneb; drwy ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau; cynnal cynadleddau; defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, radio, teledu a'r wasg. Bydd gwybodaeth hefyd ar daflenni, pennau llythyron ac e-byst.

Beth yw'r heriau?

Mae'n heriol cynnal ymwybyddiaeth ar draws y gymuned fel bod pobl yn gwybod ble i gael cyngor a chymorth pan fydd arnynt ei angen.

Mae hefyd yn her i gynnal yr adnoddau sydd eu hangen ar gyfer amrywiaeth o raglenni cymorth.

Beth sydd angen i ni ei wneud?

Mae'r Cyngor wedi gweithio gyda Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro yn ddiweddar i ddatblygu Strategaeth Ranbarthol ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2018-2023. Mae hwn yn nodi sut y bydd partneriaid yn llunio ac yn cyflwyno ymatebion i bob math o gam-drin domestig a thrais rhywiol ar draws y rhanbarth.

Y weledigaeth yw bod pobl sy'n byw, yn gweithio, yn astudio ac yn ymweld â Chaerdydd a Bro Morgannwg, yn cael cyfle i fyw bywydau cadarnhaol, annibynnol heb gael eu heffeithio gan drais a cham-drin.

Amcan Cydraddoldeb 8:

Lleihau'r bwlch cyflog a gwella cyfleoedd cyflogaeth ar gyfer grwpiau gwarchoddedig

Beth rydym wedi'i wneud:

Mae gan y Cyngor gynllun gweithlu sy'n cynnwys camau gweithredu i sicrhau bod gweithwyr y Cyngor yn adlewyrchu'r gymuned. Mae hyn yn cynnwys camau i leihau'r bwlch cyflog o ran y rhywiau. Mae'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau wedi lleihau dros y blynyddoedd diwethaf:

- Ar 31 Mawrth 2016, y bwlch cyflog o ran y rhywiau oedd 8.88%.
- Ar 31 Mawrth 2017, y bwlch cyflog o ran y rhywiau oedd 8.81%.
- Ar 31 Mawrth 2018, y bwlch cyflog o ran y rhywiau oedd 8.01%.
- Ar 31 Mawrth 2016, y bwlch cyflog o ran y rhywiau oedd 5.48%.

Rydym wedi datblygu adroddiad ar y bwlch cyflog ar gyfer pobl o leiafrifoedd ethnig, gan gynnwys data ar gyfer y flwyddyn flaenorol i'w gymharu. Byddwn yn cynnwys y wybodaeth hon yn adran Gwybodaeth am Gyflogaeth yr adroddiad monitro cydraddoldeb blynyddol.

Rydym wedi ei wneud yn flaenoriaeth i ddenu mwy o bobl ifanc i weithio gyda ni gan nad yw'r gyfran o staff ifanc a gyflogwn yn cynrychioli'r gyfran o bobl ifanc yn ein cymuned. Rydym yn defnyddio prentisiaethau i gefnogi'r amcan hwn. Mae'r Cyngor yn parhau i gynnig nifer o brentisiaethau sylfaen i bobl ifanc sy'n 16-24 oed. Mae 23 o brentisiaid yn y Cyngor ar hyn o bryd. Rhwng Ebrill 2017 a Mawrth 2018, gwnaethom gyflogi prentisiaid yn bennaf ar sail asiantaeth. O fis Mawrth 2018, gwnaethom gyflogi prentisiaid yn uniongyrchol.

Rydym yn mynychu ffeiriau swyddi ar gyfer ysgolion, colegau, prifysgolion a gyrfaoedd lleol i hyrwyddo'r ystod o yrfaoedd a swyddi yn y Cyngor. Mae ein ffocws wedi bod ar

barhau ar ddileu'r stereoteipiau a'r rhagdybiaethau gyrfaol a'r swyddi sydd gan lawer o bobl.

Cesglir data yn ôl nodweddion gwarchodedig a chaiff ei adrodd yn flynyddol yn Adroddiad Gwybodaeth am Gyflogaeth y Cyngor ([Atodiad 5](#)).

Rydym yn coladu, yn adrodd ac yn cyhoeddi ein Polisi Cyflogau'r Cyflogeion Blynyddol. Mae hyn yn darparu fframwaith i wneud yn siŵr bod ein cyflogeion yn cael eu talu'n deg ac yn wrthrychol ac yn sicrhau ei fod yn broses agored a thryloyw.

Rydym yn cefnogi pobl ifanc sy'n gadael gofal fel y gallant fanteisio ar brofiad gwaith a llwybrau prentisiaeth i gefnogi eu datblygiad gyrfaol parhaus. Mae hyn wedi canolbwyntio'n bennaf ar wella cyfraddau cyflogaeth pobl ifanc sydd wedi'u tangynrychioli yn ein gweithle.

Rydym yn gweithio gyda phobl ifanc, pobl hŷn, gweithwyr a ddiswyddwyd, rhieni sengl, a phobl anabl. Yn y cyd-destun hwn, mae'r Cyngor yn parhau i feddu ar statws "Hyderus o ran Anabledd" ac mae'n gweithio gyda'r Ganolfan Byd Gwaith leol i gyflawni camau craidd. Er enghraifft, rydym yn darparu cyfleoedd hyfforddiant a phrofiad gwaith i bobl sydd â nodweddion gwarchodedig a/neu sy'n ddi-waith yn yr hirdymor.

Rydym wedi gweithio gyda Stonewall Cymru i wneud trefniadau ar gyfer cyfleoedd profiad gwaith i bobl ifanc lesbiaidd, hoyw, deurywiol, neu drawsrywiol drwy gynllun Stonewall.

Beth ydym wedi'i ddysgu?

Sylweddolwn fod angen i ni gymryd ystod o fesurau i leihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau a gwella cyfleoedd cyflogaeth ar gyfer grwpiau gwarchodedig. Mae gennym enghreifftiau o sut rydym wedi rhoi cynnig ar wahanol ddulliau ac effaith y rhain.

Cyflwynwyd y Cyflog Byw gennym ym mis Ebrill 2016. Gwnaethom wella effaith hyn drwy roi'r gorau i ddefnyddio pwynt cyflog isaf ein strwythur cyflog. Roedd menywod yn y gweithlu yn elwa'n arbennig o hyn.

Rydym wedi defnyddio gwaith datblygu rheolwyr a chynllunio olyniaeth i gefnogi ac annog staff i wneud cais am swyddi gwag. Cafodd y rhan fwyaf o benodiadau Prif Swyddogion eu gwneud yn dilyn proses gystadleuol lle'r oedd ymgeiswyr mewnol yn llwyddiannus. Mae hyn wedi arwain at newid yn y cydbwysedd rhwng y rhywiau yn y Prif Swyddogion. Mae cydbwysedd hyd yn oed mwy nawr rhwng y rhywiau (un benywaidd yn fwy na gwrywaidd) sydd wedi arwain at newid sylweddol yn y bwlch cyflog rhwng y rhywiau.

Rydym wedi mynychu ffeiriau swyddi gyrfaedd mewn ysgolion, colegau, prifysgolion a rhai lleol i hyrwyddo'r amrywiaeth o yrfaedd a swyddi yn y Cyngor. Rydym wedi canolbwyntio ar ddileu stereoteipiau swyddi a gyrfa a herio syniadau pobl am y mathau o swyddi sy'n agored iddynt.

Rydym wedi diwygio'r system arfarnu - #maeamdanafi. Mae hyn yn rhoi cyfle i staff gyflwyno syniadau am ddatblygu eu potensial. Gallant archwilio cyfleoedd datblygu eu hunain a fydd yn cyd-fynd ag anghenion busnes. Ategwyd hyn gan Gaffi Arweinyddiaeth y Cyngor sy'n hyrwyddo datblygiad personol gweithwyr, yn eu helpu i rwydweithio ac i chwalu rhwystrau.

Beth yw'r heriau?

Mae'n anodd sicrhau newid yn gyflym yn y meysydd hyn. Mae'n gofyn am ymdrech barhaus dros gyfnod hir o amser. Byddwn yn parhau i fonitro a mynd i'r afael â bylchau cyflog ac yn anelu at adeiladu gweithlu sy'n gynrychioliadol o'r gymuned leol.

Beth sydd angen i ni ei wneud?

Byddwn yn parhau i fonitro ac adrodd ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau a'r bwlch cyflog ar gyfer pobl o leiafrifoedd ethnig. Byddwn yn cymryd camau priodol i fynd i'r afael â bylchau cyflogau yr ydym yn eu nodi.

Byddwn yn parhau â'n gwaith i ddenu grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i wneud cais am swyddi Cyngor. Yn benodol, byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar ddenu mwy o bobl ifanc i weithio gyda ni er mwyn i'n gweithlu adlewyrchu'n well y gyfran o bobl ifanc yn ein cymuned.

Byddwn yn parhau i ddefnyddio systemau datblygu rheolwyr a chynllunio olyniaeth i gefnogi datblygiad ein staff fel eu bod mewn sefyllfa dda i fanteisio ar gyfleoedd datblygu gyrfa.

Materion eraill sy'n berthnasol i'r ddyletswydd gyffredinol a'r dyletswyddau penodol

Fe welwch yn [Atodiad 4](#) bod gwasanaethau wedi casglu data a hyrwyddo cydraddoldeb mewn sawl ffordd.

Yn ogystal â hyn, rydym yn adrodd ar faterion eraill sy'n ein helpu i hyrwyddo cydraddoldeb isod.

Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Yn cyfrannu at Amcanion Cydraddoldeb 1, 4 a 5.

Rydym wedi cael system ar gyfer asesu effaith ein gwaith ar grwpiau gwarchoddedig am sawl blwyddyn. Rydym yn ei hadolygu ac yn ei gwella o bryd i'w gilydd. Rydym yn cyhoeddi canlyniadau ein hasesiadau ar ein gwefan.

Ym mis Ionawr 2017, cyflwynom broses newydd ar gyfer cynnal asesiadau effaith ar gydraddoldeb. Ceir dolenni i ganllawiau, ymchwil a data. Mae'n caniatáu i swyddogion ddechrau'r broses ac yna mae'n rhaid iddynt gysylltu â'r Tîm Cydraddoldeb am gyngor. Gobeithiwn y bydd hyn yn gwella ansawdd yr asesiadau.

Rydym yn parhau i gefnogi rheolwyr i feddwl am eu gwaith yn y ffordd hon. Rydym yn cynnig hyfforddiant ar sut i gynnal asesiadau. Mae modiwl e-ddysgu i bobl ddysgu ar-lein sut i'w wneud. Gofynnwn iddynt ddangos eu proses o feddwl mewn cofnod ffurfiol y gallwn ei gyhoeddi.

Yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae wedi bod yn bwysig i ni feddwl am sut y gallai'r newidiadau o ran y gyllideb effeithio ar ein gwasanaethau. Wrth i ni baratoi cyllidebau, rydym yn meddwl am sut y gallai newidiadau effeithio ar grwpiau gwarchoddedig. Rydym hefyd yn meddwl am sut y gallwn leihau effeithiau negyddol arnynt. Rydym yn cyhoeddi ar ein gwefan yr asesiad o ran sut mae'r gyllideb yn effeithio ar grwpiau gwarchoddedig.

Yn fwy diweddar, rydym hefyd wedi gorfod meddwl am ddarparu gwasanaethau mewn ffordd wahanol iawn. Mae hyn oherwydd ein bod yn gwybod y bydd mwy o bwysau'n cael eu rhoi ar gyllidebau bob blwyddyn am yr ychydig flynyddoedd nesaf. Wrth i ni wneud hyn, rydym yn meddwl am sut y bydd hyn yn effeithio ar grwpiau gwarchoddedig ac rydym yn siarad gyda hwy amdanynt.

Hyfforddiant Cydraddoldeb

Yn cyfrannu at Amcan Cydraddoldeb 4.

Rydym yn parhau i ddarparu rhaglen o sesiynau hyfforddiant byr i sicrhau bod staff yn gwybod am y gyfraith cydraddoldeb newydd. Rydym yn parhau i gynnig modiwlau e-ddysgu. Mae'r hyfforddiant hwn yn cwmpasu nifer o feysydd. Mae hyn yn cynnwys: gwybodaeth sylfaenol am gydraddoldeb; sut i asesu effaith ein gwaith ar grwpiau gwarchoddedig (asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb); a gwybodaeth am faterion trawsrywiol.

Gall pobl edrych ar yr e-fodiwlau ar y cyfrifiadur wrth eu desgiau. Gallant hefyd eu cyrchu o gartref. Gall hyn ei wneud yn haws i rai pobl wneud yr hyfforddiant. Gallwn fonitro pwy sydd wedi cwblhau'r math hwn o hyfforddiant.

Mae rhai aelodau o staff nad ydynt yn gallu mynychu'r sesiynau hyfforddi ac nid oes ganddynt fynediad i fodiwlau e-ddysgu. I'r aelodau hyn o staff, gallwn gynnig llyfryn sy'n esbonio'r pethau allweddol sydd angen iddynt wybod.

Rydym hefyd yn cynnig mathau eraill o hyfforddiant o bryd i'w gilydd, fel hyfforddiant ymwybyddiaeth fyddar, hyfforddiant ymwybyddiaeth gyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth rhywedd.

Caffael

Yn cyfrannu at Amcan Cydraddoldeb 4.

Mae proses gaffael gorfforaethol y Cyngor yn sicrhau bod yr holl brosesau caffael yn ystyried Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus ac yn cydymffurfio â deddfwriaeth statudol. Mae hyn yn cynnwys diwydrwydd dyladwy drwy ddogfennau tendro.

Mae gan y cam dethol o broses gaffael y Cyngor saith o gwestiynau wedi'u sgorio a all ddod yn fater llwyddo neu fethu gorfodol os oes angen. Y cwestiwn cyntaf yw:

"Fel cyflogwr, a oes gennych bolisi a darpariaethau ar waith i sicrhau bod eich sefydliad a'ch staff yn cydymffurfio â'ch rhwymedigaethau statudol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, ac yn unol â hynny, ai eich arfer yw peidio â gwahaniaethu'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ar sail oedran, anabledd, hunaniaeth o ran rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol mewn perthynas â phenderfyniadau i recriwtio, dethol, talu, hyfforddi, trosglwyddo a hyrwyddo cyflogeion?

Oes / Nac Oes"

Gall cam dyfarnu'r broses gaffael hefyd gynnwys gofynion cydraddoldeb ac amrywiaeth ar gyfer gwerthuso.

Mae staff caffael wedi ymgymryd â'r hyfforddiant cydraddoldeb diweddaraf drwy system ddysgu i-Dev ar-lein y Cyngor, gan gynnwys Deddf Cydraddoldeb 2010, Cwrs Ymwybyddiaeth Drawsrywiol ac Aseidiadau Effaith ar Gydraddoldeb.

Hefyd, mae Swyddogion Caffael yn mynd i Gynhadledd Gaffael Flynyddol Llywodraeth Cymru i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r mentrau a'r arferion gorau diweddaraf ym maes caffael moesegol a chynhwysol.

O fewn Cod Ymarfer Caffael y Cyngor, rydym wedi adolygu'r canllawiau Rheoli Contractau fel ei fod yn hyrwyddo dangosydd perfformiad allweddol ar gyfer materion amrywiaeth a chydraddoldeb cyffredinol. Mae Holiadur Caffael Moesegol wedi'i greu gyda'r nod o'i anfon at gyflenwyr y Cyngor i amlygu, atgoffa, a hyrwyddo materion amrywiaeth a chynhwysiant, yn ogystal â materion caethwasiaeth fodern a'r gofynion o ran y Gymraeg.

Rydym yn datblygu canllawiau ar amrywiaeth lesbiaid, hoywon, pobl ddeurywiol a thrawsrywiol a chynhwysiant ar gyfer cadwyn gyflenwi'r Cyngor fel dogfen ar wahân.

Cynllun Hyderus o ran Anabledd

Yn cyfrannu at Amcan Cydraddoldeb 8.

Rydym yn falch o fod yn aelod o'r cynllun hwn. Mae'n cydnabod cyflogwyr sy'n helpu ymgeiswyr anabl i mewn i waith ac sy'n cefnogi cyflogeion pe baen nhw'n dioddef iechyd gwael yn ystod eu bywyd gwaith.

Dan y cynllun, rydym yn helpu pobl ag anableddau mewn sawl ffordd.

- **Cyfweliadau Hygyrch**

Rydym yn cael gwared ar rwystrau drwy gynnig pethau fel: parcio, arwyddwyr; Braille; mynediad i gadeiriau olwyn; system ddolen; neu ddehonglwr.

- **Ystyriaeth Ymlaen Llaw**

Rydym yn gwarantu cyfweliad i bobl ag anableddau ar yr amod eu bod yn bodloni gofynion hanfodol y fanyleb person ar gyfer y swydd.

- **Lleoliad cyfweliad**

Rydym yn gallu trefnu ymweliad i leoliad y cyfweliad cyn y cyfweliad. Yna gallwn wneud addasiadau cyn y cyfweliad os bydd pobl angen hynny.

- **Datblygu galluoedd**

Rydym yn sicrhau bod cyfle i bobl ddatblygu a defnyddio eu galluoedd. Rydym yn gwneud hyn trwy ein system Adolygiad Datblygiad Personol #maeamdanafi

- **Cefnogi cyflogeion**

Rydym yn cefnogi cyflogeion i aros mewn cyflogaeth pe baent yn cael anabledd. Rydym yn cynnig gwasanaeth iechyd galwedigaethol a gwasanaeth cwnsela.

- **Codi ymwybyddiaeth**

Rydym yn trefnu i helpu staff i wybod mwy am anabledd. Rydym hefyd yn hysbysebu ein hymrwymiad ar ein Staffnet ac ar bosteri yn yr adeilad.

- **Adolygu'r cynllun**

Rydym yn gwirio'n rheolaidd sut mae'r cynllun yn cael ei redeg ac yn cynllunio gwelliannau. Rydym wedi gallu treialu cynllun profiad swydd ac wedi cynnig lleoliadau i nifer o ymgeiswyr gwaith. O ganlyniad uniongyrchol i'r cynllun hwn, mae o leiaf un person wedi cael gwaith cyflogedig ac mae un arall yn derbyn hyfforddiant perthnasol i gefnogi eu cymhwyster proffesiynol a gwella eu rhagolygon cyflogaeth.

Pencampwr Amrywiaeth Stonewall

Yn cyfrannu at Amcan Cydraddoldeb 4.

Parhaom i fod yn aelod o raglen Hyrwyddwyr Amrywiaeth Stonewall. Gyda chymorth Stonewall, rydym wedi datblygu cynllun gweithredu i wella'r gweithle i bobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol. Mae hyn yn ein helpu i sicrhau ein bod ni'n eu trin yn deg pan fyddant yn gyflogeion neu'n ymgeisio am swyddi.

Mae ein gwaith wedi cynnwys sefydlu Rhwydwaith LHDT+ a Chynghreiriaid, a ail-lansiwyd ym mis Ionawr 2019 fel 'GLAM'. Mae aelodau'r rhwydwaith yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd rheolaidd sy'n gysylltiedig â thair ffrwd waith wahanol: effaith yn y gweithle; amlygrwydd ac ymwybyddiaeth; a chymdeithasol a chymorth. Mae gan bob grŵp nifer o amcanion i'w cyflawni i helpu i wneud y gweithle yn fwy cynhwysol i bobl LHDT+. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys adolygu polisïau, codi ymwybyddiaeth o faterion sy'n effeithio ar bobl LHDT+, a threfnu digwyddiadau cymdeithasol i rwydweithio a darparu cymorth i staff.

Mae gennym Hyrwyddwyr LHDT+, a gwefan 'GLAM' (rhwydwaith staff LHDT+) ar ein mewnrwyd staff.

Rydym yn cymryd rhan ym Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall. Gwnaethom wella ein sgôr gan 24 pwynt a'n safle ar y rhestr gan 78 o leoedd.

Ymgyrch Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth

Yn cyfrannu at Amcan Cydraddoldeb 4.

Rydym yn parhau i weithio gyda'r ymgyrch Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth. Elusen ydyw sy'n gweithio gyda phobl ifanc i godi ymwybyddiaeth o hiliaeth a homoffobia. Mae'n defnyddio pêl-droedwyr a sêr chwaraeon eraill fel esiamplau i wneud hyn. Maen nhw'n cynnig gweithdai i bobl ifanc ynghylch hiliaeth ac yn cynnig sesiynau ffitrwydd difyr.

Yn 2018 – 2019, roedd 35 o weithdai ar draws 18 o ysgolion Bro Morgannwg, gan gynnwys:

- 15 ysgol gynradd;
- 3 ysgol uwchradd;

Fe wnaethant gyfarfod â 1364 o blant a phobl ifanc rhwng 5 ac 17 oed. Roedd dros 10% o'r disgyblion a ymatebodd i arolwg wedi clywed neu wedi gweld hiliaeth yn eu hysgol yn y 12 mis blaenorol. Dywedodd 24% o'r disgyblion a atebodd o ysgolion cynradd eu bod nhw neu ffrind wedi dioddef o hiliaeth yn yr ysgol.

Yn dilyn y gweithdai, roedd llai na 5% o ddisgyblion a dim athrawon wedi gweld unrhyw ddiwyddiadau hiliol, a dywedodd 65% o ddisgyblion eu bod wedi newid y ffordd y maent yn trin pobl eraill. Byddai 100% o'r athrawon yn argymhell y gweithdai i ysgol arall.

Ar ôl y gweithdai: roedd y wybodaeth a'r ddealltwriaeth o hiliaeth ymhlith disgyblion ysgolion cynradd wedi codi o 43% i 90% o radd dda neu ardderchog; a hyder wrth sôn am hiliaeth wedi codi o 40% i 65% o radd dda neu ardderchog.

Mewn arolwg dilynol dri mis ar ôl y gweithdai, cytunodd yr holl athrawon fod eu hyder wrth ddarparu addysg gwrth-hiliaeth wedi cynyddu, a dywedodd pob un bod y gweithdai yn ardderchog neu'n dda. Dyma rai o'r sylwadau a wnaethant pan ofynnwyd a fyddai'r gweithdy yn effeithio ar agweddau:

'Ydy. Mae'r disgyblion wedi dangos mwy o empathi a dealltwriaeth o'r mater.'

'Rwy'n credu ei fod wedi codi ymwybyddiaeth, yn enwedig y posibilrwydd o fod yn hiliol yn anfwriadol.'

'Rydym wedi parhau â'r pwnc yn fy nosbarth ac mae gan y myfyrwyr atgof da o'r hyn yr oeddent wedi'i ddysgu yn ystod y gweithdy.'

Fe wnaeth Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth ymweld â Pharc Jenner ar gyfer digwyddiad clwb addysgol gyda'n clwb partner Barry Town United FC. Mynychodd pobl ifanc o Ysgol Gynradd Oakfield y stadiwm i gymryd rhan yn y digwyddiad clwb addysgol am y diwrnod.

Gwahoddwyd y disgyblion hefyd i wyllo ffilm addysgol newydd yr elusen sy'n cynnwys Ryan Giggs, Dele Alli a Trent Alexander-Arnold ymysg eraill. Yn y prynhawn, cafodd y disgyblion gyfle i roi eu gwybodaeth i'r prawf mewn cynhadledd gwrth-hiliaeth i'r wasg.

Roedd chwaraewyr Tref y Barri Jordan Cotterill, Louis Gerrard a'r Rheolwr Cynorthwyol Mike Cosslett yn bresennol i gwrdd â'r disgyblion ac ateb eu cwestiynau. Fe wnaeth y disgyblion newyddiadurwyr ofyn rhai cwestiynau heriol ac aeddfed i'r chwaraewyr. Defnyddiodd y disgyblion y wybodaeth o'r digwyddiad i ysgrifennu erthygl unwaith yr oeddynt wedi dychwelyd i'r ysgol.

Fforwm Adrodd a System Adrodd Sipsiwn a Theithwyr

Yn cyfrannu at Amcan Cydraddoldeb 4.

Fe wnaethom barhau i gefnogi'r Fforwm Sipsiwn a Theithwyr. Mae'r bobl ar y Fforwm o wasanaethau sy'n gweithio gyda Sipsiwn a Theithwyr. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro;
- Diogelwch Cymunedol;
- Gwasanaethau Cymdeithasol ;

- Iechyd Amgylcheddol;
- Ystadau;
- Gwasanaethau Cyfreithiol;
- Gwasanaethau Cymorth Disgyblion;
- Uned Cymorth Lleiafrifoedd Heddlu De Cymru.

Fe wnaeth y grŵp sicrhau bod systemau mewn lle i gefnogi Sipsiwn a Theithwyr wrth iddynt gyrraedd yr ardal. Roedd system i adrodd newydd ddyfodiaid, asesu anghenion lles; a rhannu gwybodaeth.

Fe wnaethon ni fonitro ein system adrodd safleoedd. Pan wnaeth swyddogion ddarganfod bod yna safle Sipsiwn neu Deithwyr newydd, fe wnaethant roi gwybod i'n canolfan gyswllt yn y Fro. Fe wnaethon ni rannu'r wybodaeth hon gydag aelodau eraill y grŵp.

Mae ein Hadran Dai yn cysylltu'n gyntaf â theuluoedd Sipsiwn neu Deithwyr pan fyddant yn cyrraedd yr ardal. Maent yn darganfod am faterion fel anghenion lles a hyd arhosiad. Mae'n rhoi'r wybodaeth hon i'n Canolfan Gyswllt i'w throsglwyddo i aelodau'r Fforwm.

Yn ystod 2018 - 19, gwnaethom barhau i adolygu aelodaeth i sicrhau ein bod yn gwybod pa bobl i gysylltu â nhw ym mhob sefydliad. Roedd hyn yn ein galluogi i barhau i weithio'n dda pan oedd yna faterion yr oedd angen i ni ymdrin â nhw.

Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig (Cyngor ar Awtistiaeth i Oedolion gynt)

Yn cyfrannu at Amcan Cydraddoldeb 8.

Mae'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig yn dîm amlasiantaeth o staff awdurdodau lleol ac iechyd sy'n cwmpasu Bro Morgannwg a Chaerdydd. Mae'n rhoi diagnosis a chymorth i oedolion sydd ag awtistiaeth. Dechreuodd y tîm yn 2012 a datblygodd i fod yn Wasanaeth Awtistiaeth Integredig yn 2017.

Mae'r Tîm yn casglu gwybodaeth am y gwasanaethau sydd ar gael. Daw'r gwasanaethau hyn gan awdurdodau lleol, darparwyr gwasanaethau allanol, a sefydliadau'r trydydd sector. Yna mae'r tîm yn cefnogi cleientiaid i ddefnyddio'r gwasanaethau hyn ac yn darparu cymorth wedi'i dargedu'n well os oes rhwystrau.

Mae'r gwaith hwn yn helpu cleientiaid i gael gafael ar gymorth neu gyfleoedd sydd ar gael iddynt yn y gymuned ehangach. Heb y cymorth lefel isel hwn, efallai na fyddent wedi cael gwybod am y gwasanaeth cymorth hwn neu'n teimlo nad oeddynt yn gallu manteisio arno. Mae'r ymyriadau tymor byr, wedi'u targedu, yn annog pobl i fod yn annibynnol ac osgoi dod yn ddibynnol ar y tîm.

Mae'r gwaith hwn yn ein helpu i ddarparu gwasanaethau ataliol sy'n diwallu gofynion Deddf Gwasanaeth Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014.

Yn ogystal â darparu cymorth a chyfeiriadau i fanteisio ar gyfleoedd eraill, mae'r Tîm yn darparu amrywiaeth o grwpiau a gweithdai. Dyma'r rhestr ar hyn o bryd:

- gweithdy hyfforddiant 'Socialeyes' i bobl i ddatblygu sgiliau cymdeithasol.
- grwpiau trafod misol i oedolion yn y Barri a Chaerdydd;
- grŵp i oedolion sydd ag awtistiaeth i ddysgu sgiliau ymdopi sylfaenol - mae'r cwrs 'Sgiliau Gydol Oes' hwn yn cynnwys maeth ac amrywiaeth o dasgau domestig;
- grŵp ôl-ddiagnostig lle mae oedolion yn dysgu am y cyflwr y maent wedi cael diagnosis ohono a sut y gallai effeithio ar eu bywydau;
- cwrs "Get Cooking" sy'n cael ei gynnal gyda'r tîm dieteteg i helpu oedolion awtistig i baratoi prydau iach cost-effeithiol.

Fforwm Strategaeth 50+ y Fro

Yn cyfrannu at Amcan Cydraddoldeb 5.

Mae'r Fforwm yn ymgychu dros anghenion pobl 50+ ym Mro Morgannwg. Mae ei haelodau mewn cyswllt â nifer o weithgorau lleol a chenedlaethol. Mae gan y Fforwm gyfansoddiad a grŵp etholedig o aelodau a elwir y Bwrdd Gweithredol. Y Bwrdd Gweithredol sy'n penderfynu sut mae'r Fforwm yn gweithio.

Mae cyfarfodydd y Bwrdd Gweithredol ar agor i bob aelod o'r Fforwm eu mynychu. Drwy fynychu, gall aelodau elwa o amrywiaeth o gyflwyniadau diddorol ar y gwasanaethau sydd ar gael. Mae gan aelodau hefyd gael y cyfle i fynegi eu barn ar ddatblygiadau a chynllunio gwasanaethau.

Mae pum grŵp gorchwyl yn gweithio i sicrhau bod pobl dros hanner cant yn gallu manteisio ar iechyd da, trafnidiaeth, tai a gofal. Maen nhw'n ceisio sicrhau y gall pobl ddysgu sgiliau newydd a gwneud pethau difyr sy'n addas i'w hanghenion. Mae'r Fforwm yn siarad â'r Cyngor, y Bwrdd Iechyd a sefydliadau gwirfoddol am y gwasanaethau a ddarperir ganddynt. Mae'r Fforwm hefyd yn cynnal digwyddiadau bob blwyddyn.

Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda'r Fforwm ac mae wedi llofnodi Memorandwm Cydddealltwriaeth gyda'r Fforwm. Mae'r Cyngor yn rhoi grant bach i'r Fforwm ar gyfer treuliau aelodau ac i dalu am weithgareddau a digwyddiadau. Mae'r Fforwm yn defnyddio'r grant ar gyfer:

- cylchgrawn sydd â gwybodaeth ddefnyddiol i bobl hyn;
- gwefan;
- prynu offer fel argraffwyr a llechi ar gyfer busnes y Fforwm ac addysgu pobl hyn sut i ddefnyddio cyfrifiaduron, llechi a ffonau clyfar; a
- threuliau allan o boced.

O bryd i'w gilydd, mae'r Cyngor a sefydliadau eraill am wybod beth mae pobl yn meddwl am eu cynlluniau. I helpu i ganfod beth sydd ei angen ar bobl, rydym yn cynllunio gwahanol weithgareddau gan gynnwys siarad â'r Fforwm.

Digwyddiadau'r Fforwm

Mae Age Cymru yn elusen i bobl hyn. Sefydlodd ŵyl celfyddydau cenedlaethol blynyddol o'r enw Gwanwyn. . Fe'i cynhelir ym mis Mai bob blwyddyn i bobl hyn fwynhau'r celfyddydau. Mae'r Fforwm yn cymryd rhan weithredol yn y digwyddiad.

Mae'r Fforwm hefyd yn cymryd rhan weithredol mewn digwyddiadau i fynd i'r afael â cham-drin yr henoed, dathlu Diwrnod Rhyngwladol Pobl Hŷn, a hybu iechyd a lles.

Cyhoeddusrwydd

Pob blwyddyn, mae'r Fforwm yn cyhoeddi cylchgrawn o'r enw 'The Herald'. Mae'n dweud wrth bobl am waith y Fforwm a phethau o ddiddordeb i bobl dros 50 oed. Mae hefyd eitemau ar wasanaethau a gweithgareddau hamdden. Aelodau'r Fforwm sy'n cynhyrchu'r cylchgrawn hwn.

Mae gan y Fforwm hefyd ei wefan ei hun. Mae'r [wefan](#) hon yn rhoi mynediad i safleoedd cyfryngau cymdeithasol ac mae wedi'i datblygu gan aelod o'r Fforwm.

Cefnogi projectau eraill

Mae aelodau o'r Fforwm wedi hyfforddi i fod yn 'hyrwyddwyr digidol'. Mae hyn yn golygu eu bod yn:

- addysgu pobl am ddiogelwch ar-lein;
- sut i ddefnyddio gliniaduron, llechi a ffonau clyfar, gan gynnwys e-bost a'r rhyngwrdd.

Mae rhai aelodau o'r Fforwm wedi hyfforddi i fod yn Hyrwyddwyr Dementia-Gyfeillgar. Maen nhw'n gwirfoddoli i wneud hyn. Maen nhw'n annog eraill i helpu pobl â dementia i fyw yn y gymuned. Maen nhw'n rhoi gwybodaeth am beth yw dementia, sut beth yw cael dementia, a'r hyn y gallant ei wneud i helpu.

Mae dau aelod o'r Fforwm wedi bod ar gwrs LIFT Age Cymru. LIFT yw enw rhaglen gweithgareddau. Ei nod yw cael pobl hŷn i fod yn actif yn eu cymuned leol. Gall dau aelod o'r Fforwm bellach gynnig sesiynau ymarfer corff wythnosol. Gall ystod o grwpiau cymunedol fynychu, gan gynnwys pobl â dementia. Mae un o'r aelodau Fforwm hyn wedi creu pecyn cymorth i helpu pobl i osgoi disgyn. Mae'n cynnal sesiynau ar atal disgyn i grwpiau ar hyd a lled y Fro. Mae'r aelod hwn hefyd wedi cymhwyso i gynnig sesiynau Tai Chi Age Cymru i bobl hŷn.

Mae aelodau'r Fforwm wedi hyfforddi i fod yn ymgynghorwyr ar gyfer Canolfan Wybodaeth Ysbyty Llandochau. Mae aelodau'r Fforwm sydd ar y grŵp gweithredol wedi cael hyfforddiant i fod yn ymgynghorwyr iechyd a lles. Maen nhw'n gweithio 'i sicrhau bod pob cyswllt yn cyfrif' (MECC). Maen nhw'n hyrwyddo byw'n iach, gwasanaethau sgrinio a brechu. Maent hefyd yn gweithio fel mentoriaid ysgol uwchradd.

Gallwch ymuno â'r Fforwm os ydych dros bum deg ac yn byw, gweithio neu'n gwirfoddoli ym Mro Morgannwg.

Datblygu'r Celfyddydau

Yn cyfrannu at Amcan Cydraddoldeb 4.

Mae Gwasanaeth Datblygu'r Celfyddydau, gan gynnwys yr Oriel Gelf Ganolog, yn cynnal rhaglen gynhwysol o weithgareddau cyfleoedd, arddangosfeydd a digwyddiadau. Mae'r gwaith hwn yn cael ei arwain gan y Strategaeth Celfyddydau a Diwylliant 'Bro Uchelgeisiol a Diwylliannol Fywiog 2017-2022'.

Mae gan y celfyddydau rôl bwysig i'w chwarae yn iechyd, cyfoeth a hapusrwydd trigolion ac ymwelwyr y Fro. Mae Gwasanaeth Datblygu'r Celfyddydau yn cefnogi ystod amrywiol o unigolion, grwpiau, sefydliadau a digwyddiadau gan gynnwys y gymuned Romani, Sipsiwn a Theithwyr, Cymdeithas Gelfyddydau'r Menywod, Fforwm Strategaeth 50+ y Fro, Coleg Caerdydd a'r Fro ac Ysgolion y Fro, a Diwrnod Cofio'r Holocaust. Mae'n targedu artistiaid heb gynrychiolaeth ddigonol ac yn hyrwyddo eu gwaith drwy arddangosfeydd a digwyddiadau.

Dyma rai enghreifftiau o'r arddangosfeydd a'r digwyddiadau hyn:

Arddangosfa Diwrnod Cofio'r Holocaust

Rydym wedi cynnal digwyddiad ar gyfer Diwrnod Cofio'r Holocaust ar 27 Ionawr bob blwyddyn ers 2001. Mae'r Holocaust a hil-laddiadau a ddilynodd yn gwneud i ni ofyn cwestiynau anodd. Gofynnem i ymwelwyr feddwl beth sy'n digwydd ar ôl digwyddiadau o'r fath. Roeddem am i bobl feddwl am yr hyn yr ydym yn ei weld ac angen ei wneud heddiw, gan annog pobl i feddwl am heriau personol a byd ehangach weithiau.

Arddangosfa Cymdeithas Gelfyddydau'r Menywod

Mae Diwrnod Rhyngwladol y Menywod wedi cael ei nodi bob blwyddyn ar draws y byd ar 8 Mawrth ers 1911. Rydym yn cynnal arddangosfa agored o waith gan Gymdeithas Gelfyddydau'r Menywod. Mae'r grŵp hwn yn dod ag artistiaid benywaidd at ei gilydd fel eu bod yn teimlo'n llai ynysig. Mae'r arddangosfa yn dathlu amrywiaeth drwy ddangos ystod o waith celf gan fenywod o bob rhan o Gymru.

Project 'Gypsy Maker' y Cwmni Diwylliant a Chelfyddydau Romani

Mae'r Cwmni Diwylliant a Chelfyddydau Romani yn rhedeg project arloesol 'Gypsy Maker' a mentrau eraill. Mae'r mentrau hyn yn defnyddio rhagoriaeth artistig ac arbrofi i herio gwahaniaethu ac yn hybu addysg y cyhoedd yn niwylliant Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Mae'r cwmni'n gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill i gefnogi'r gwaith o ddatblygu gweithiau arloesol gan artistiaid sefydledig a datblygol Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

Ers nifer o flynyddoedd, mae wedi gweithio gyda'r Gwasanaeth Datblygu Celf i arddangos artistiaid pwysig o'r gymuned hon yn Oriel Gelf Ganolog. Gyda chefnogaeth Cyngor Celfyddydau Cymru, dros y pum mlynedd diwethaf mae wedi llwyfannu cyfanswm o naw arddangosfa yn cynnwys: 247 diwrnod arddangos gyda mwy na 15,000 o ymwelwyr; a 27 o weithdai ac wyth o anerchiadau a fynychwyd gan 550 o bobl.

'Mixing it!'

Roedd hon yn arddangosfa hanesyddol gan Ysgol Gyfun Bryn Hafren ac Ysgol Gyfun y Barri. Roedd yn nodi'r newid o ysgolion un rhyw i'r sefydliadau cydaddysgol y maent erbyn heddiw. Daeth yr arddangosfa â'r ddwy ysgol at ei gilydd i ddangos talentau'r disgyblion a'u galluogi i arddangos eu gwaith mewn oriel broffesiynol. Roedd y gwaith yn mynd i'r afael â materion iechyd meddwl, effeithiau'r cyfryngau cymdeithasol, rhyfel, a materion eraill sy'n effeithio ar bobl ifanc heddiw. Gyda chymysgedd o waith TGAU a Lefel A, dathlodd yr oriel sgiliau aml-gelfyddyd myfyrwyr drwy ffotograffiaeth, cerameg, peintio, collage, ffilm a gwaith dylunio 3Dimensiwn.

Coleg Caerdydd a'r Fro - Sioe Diwedd Blwyddyn

Dyma arddangosfa o waith celf gan artistiaid sydd ddod sy'n astudio yng Ngholeg Caerdydd a'r Fro. Roedd yn arddangos casgliad arbennig o waith celf a dylunio. Archwiliodd y pwnc sawl mater sy'n effeithio ar gymdeithas heddiw megis dibyniaeth, iechyd meddwl, ac anabledd.

Cynllun 'Noson Allan' Cyngor Celfyddydau Cymru

Mae cynllun 'Noson Allan' Cyngor Celfyddydau Cymru yn gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol. Mae'n helpu grwpiau o wirfoddolwyr ledled Cymru i ddod â'r celfyddydau i galon eu cymunedau. Mae hyn yn cyfrannu at economi leol a'r celfyddydau drwy roi llwyfan i berfformwyr gyrraedd cymunedau lleol.

Gan weithio ar y cyd â Gwasanaeth Datblygu Celfyddydau Bro Morgannwg, mae'r tîm 'Noson Allan' yn cynnig cyngor a chefnogaeth i gael mynediad at sioeau o ansawdd uchel sy'n addas ar gyfer lleoliadau cymunedol bach. Mae'r cynllun yn galluogi cymunedau a phobl ar incwm isel i gael mynediad at theatr broffesiynol o safon uchel mewn canolfannau cymunedol lleol, neuaddau pentref neu leoliadau anhraddodiadol eraill.

Gwasanaethau Hamdden

Yn cyfrannu at Amcan Cydraddoldeb 4.

Rydym yn darparu cynlluniau a digwyddiadau chwarae a chwaraeon drwy ein Tîm Datblygu Chwaraeon a Chwarae.

Chwarae

Clwb Gwyliau Teuluoedd yn Gyntaf

Yn ystod gwyliau'r ysgol, rydym yn darparu'r Clwb Gwyliau Teuluoedd yn Gyntaf. Mae dau gynllun yn y clwb hwn: cynllun chwarae anabledd i blant 4 – 11 oed; a Chynllun y Glasoed ar gyfer pobl ifanc 12 – 18 oed. Mae'r cynlluniau hyn yn cael eu rhedeg ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag anableddau, anghenion cymhleth, neu ymddygiad heriol.

Yr elfen anableded yn y grant Teuluoedd yn Gyntaf gan Lywodraeth Cymru yw'r prif gyllid ar gyfer y project hwn. Mae'r project yn cael ei gynnal yn Ysgol Y Deri.

Mae angen gwasanaethau arbenigol ar y cynllun gan gynnwys: cefnogaeth un i un; gofal personol; nyrs i roi meddyginiaeth; trafnidiaeth; ac offer arbenigol. Lle bo'n bosibl, bydd y Tîm Chwarae yn cefnogi plant, pobl ifanc a theuluoedd i gyrchu'r cymorth priodol sydd angen arnynt er mwyn mynychu'r project.

Cynlluniau Chwarae a Cheidwaid Chwarae

Yn ystod gwyliau'r haf, rydym yn rhedeg Cynlluniau Chwarae a Cheidwaid Chwarae mewn cymunedau lleol. Mae'r cynlluniau'n cael eu cynnal mewn mannau fel canolfannau cymunedol, parciau a mannau agored. Rydym yn eu cynnal ar sail mynediad agored i blant a phobl ifanc rhwng 5 a 14 oed.

I gynnal y cynlluniau hyn, rydym yn defnyddio cyllid oddi wrth Gyngorau Tref a Chymunedol, Tai Unedig Cymru, cyllid adran 106 a chyllid y Cyngor.

Mae'r project Ceidwaid Chwarae yn cael ei ddarparu mewn parciau lleol a mannau agored i annog plant a phobl ifanc i ddefnyddio'r gwahanol barciau ar draws y Fro.

Digwyddiadau Arbennig a Diwrnodau Hwyl i'r Teulu

Mae'r tîm Chwarae yn cefnogi partneriaid a sefydliadau i ddarparu digwyddiadau arbennig a diwrnodau hwyl i'r teulu ar draws y Fro.

Mae'r digwyddiadau'n cynnwys: Sioe Bro Morgannwg; 'Eats Beats and Treats'; Diwrnod Allan i Blant; y Clwb Rotari; a Phenwynos Ynys y Barri.

I gyflawni'r digwyddiadau hyn rydym yn gweithio gyda: Tîm Digwyddiadau'r Fro; y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd; y Tîm Maethu a Mabwysiadu; Cymunedau yn Gyntaf; Partneriaeth Bro Mwy Diogel; a chymunedau lleol.

Datblygu Chwaraeon

Mae'r Tîm Byw'n Iach yn cynnal nifer o raglenni cynhwysol. Rydym yn targedu grwpiau o bobl sydd â nodweddion gwarchoddedig a grwpiau o bobl lle ceir tystiolaeth o gyfranogiad isel. Ymfalchiwn yn y cyfleoedd teg a ddarparwn drwy bartneriaethau a chydweithio. Dyma wybodaeth bellach am bob project.

Rhaglen Chwaraeon Iau

Nod y Rhaglen Chwaraeon Iau yw cael mwy o blant o oedran ysgol gynradd yn cymryd rhan mewn chwaraeon. Mae hefyd yn helpu i wella sgiliau sylfaenol. Mae hyn yn cynnwys cydbwysedd, cydlynid, ystwythder ac ymwybyddiaeth ofodol.

Mae'r rhaglen yn annog plant i gymryd rhan mewn sesiynau chwaraeon hwyl a gweithgareddau corfforol ar ôl ysgol ac yn y gymuned. Lle y gallwn, rydym yn gwneud cysylltiadau rhwng ysgolion a chymunedau lleol fel y gall disgyblion fod yn egnïol y tu allan i oriau ysgol.

Rydym ni eisiau i blant o bob gallu gymryd rhan yn y gweithgareddau. Mae'r Tîm Datblygu Chwaraeon yn defnyddio ei wybodaeth i wneud hyn yn bosibl. Mae'r Tîm yn darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth i bobl eraill sy'n ymwneud â chyflwyno gweithgareddau.

Mae bob ysgol yn y Fro yn cael y cyfle i gymryd rhan yn y Rhaglen Chwaraeon Ieuenctid gyda chymorth y Tîm Datblygu Chwaraeon. Mae hyn yn cynnwys ysgolion prif ffrwd sydd â disgyblion anabl ac Ysgol y Deri. Mae Ysgol y Deri yn darparu ar gyfer amrywiaeth eang o ddisgyblion gwahanol eu gallu.

Fel rhan o'r Rhaglen Chwaraeon Iau, ceir calendr gŵyl chwaraeon ysgol gynradd. Rydym yn gwahodd ysgolion i gymryd rhan mewn twrnameintiau hwyl a gwyliau nad ydynt yn gystadleuol. Mewn gwyliau penodol, ein nod yw cynnwys plant a phobl ifanc anweithredol neu grwpiau o bobl nad ydynt fel arfer yn cael y cyfle i gynrychioli eu hysgol.

Isod mae rhestr o rai o'r cyfleoedd a gafodd eu cynnal yn y Fro.

- Gŵyl Criced y Fro gyfan

- Pencampwriaethau Traws Gwlad
- Gŵyl Pêl-rwyd Ysgolion Cynradd y Fro
- Gŵyl Plant Cwad y Fro (Athletau)
- Gwyliau Aml-sgil Blwyddyn 1 a 2
- Gwyliau Aml-sgil Blwyddyn 3 a 4
- Gwyliau Aml-sgil Blwyddyn 5 a 6

Cynllun '5 x 60'

Mae'r Cynllun '5 x 60' ar gyfer disgyblion uwchradd. Mae'n cynnig cyfleoedd chwaraeon a gweithgareddau corfforol yn ystod amseroedd cinio ac ar ôl ysgol. Nod y cynllun yw cael mwy o bobl ifanc i gymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol, yn enwedig y rhai sy'n anweithgar neu'n anodd eu cyrraedd.

Rydym yn cynnig ystod eang o weithgareddau ym mhob ysgol uwchradd ledled y Fro. Rydym yn ymgynghori â phlant i gael gwybod pa weithgareddau maen nhw am gymryd rhan ynddynt.

Bydd pob ysgol uwchradd yn y Fro yn cael sesiynau sy'n targedu un neu fwy o'r grwpiau canlynol yn benodol: merched, pobl ifanc sydd ag anableddau, a rhai grwpiau blwyddyn.

Yn ogystal â sesiynau penodol, mae'r cynllun '5 x 60' yn y Fro yn ymfalchïo mewn creu amgylcheddau cynhwysol lle gall unrhyw un fynychu. Mae hyn yn cynnwys merched, disgyblion ag anableddau, a disgyblion Du a lleiafrifoedd ethnig. Maent yn teimlo'n fwy cyfforddus yn cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol gan fod ganddynt gefnogaeth y Swyddog Pobl Ifanc Actif a'r Cydlynnydd Gweithgareddau yn yr ysgol honno. Mae pob sesiwn am ddim felly nid yw arian yn rhwystr i gymryd rhan.

Mae'r Cynllun '5 x 60' hefyd yn cynnig ystod o wyliau a chyfleoedd cystadleuol sy'n cynnwys Pêl-droed i Ferched, Rygbi i Ferched, Badminton, Pêl-rwyd a llawer mwy.

Arweinyddiaeth

Y Cynllun Cenhadon Ifanc

I fynd ochr yn ochr â'r Rhaglen Chwaraeon Ieuenctid a'r Cynllun '5 x 60', mae'r Tîm Byw'n Iach wedi creu rhaglen arweinyddiaeth gref i blant a phobl ifanc ym Mro Morgannwg.

Roeddem yn cydnabod y gallai disgyblion yn yr ysgolion cynradd ac uwchradd gymryd cyfrifoldeb o ran llunio sut mae chwaraeon a gweithgareddau corfforol yn edrych yn eu hysgolion. Trwy'r darganfyddiadau hyn, mae'r Cynllun Cenhadon Ifanc wedi ffynnu.

Mae Cenhadon Ifanc yn ceisio:

- cynyddu cyfranogiad a ffordd o fyw iach;
- hyrwyddo gwerthoedd cadarnhaol chwaraeon;
- bod yn gennad, model rôl a llais pobl ifanc ar gyfer ymarfer corff a chwaraeon ysgol.

Mewn ysgolion cynradd, rydym wedi nodi Cenhadon Ifanc Efydd a'u helpu i ddatblygu sgiliau priodol i wneud y swydd. Rhaid iddynt ddiwallu safonau erbyn diwedd y flwyddyn ysgol. Mae hyn yn cynnwys dewisiadau a fydd yn gwella lefelau gweithgareddau corfforol yn yr ysgol. Gall y Cenhadon weithredu fel llais disgyblion fel bod yr ysgol yn gwrandao ar eu syniadau ac yn gweithredu arnynt.

Gall disgyblion uwchradd ymgeisio i fod yn Genhadon Arian (Blwyddyn 9) a Chenhadon Aur (Blwyddyn 10 a hyn). Mae ganddynt safonau mwy cymhleth i'w diwallu. Maent hefyd yn cymryd mwy o gyfrifoldeb. Eleni, roedd un o'r Llysgennad Ifanc Arian a recriwtiwyd yn blentyn a oedd yn derbyn gofal.

Mae'r safonau ar gyfer holl lefelau Cenhadon Ifanc yn cynnwys camau ar sut y gall yr ysgol ddod yn fwy cynhwysol. Mae'r safonau'n targedu grwpiau penodol ac yn rhoi mwy o gyfleoedd iddynt.

Mae'r Cynllun Cenhadon Ifanc yn ymfalchïo ar fod yn gwbl gynhwysol ac yn cynnig y cyfle i'r holl ddisgyblion ymgeisio ar gyfer y cynllun. Gall bob ysgol enwebu un bachgen

ac un ferch i hyrwyddo cydraddoldeb. Mae nifer o ddisgyblion sydd ag anabledd neu ddisgyblion du neu o leiafrifoedd ethnig wedi bod yn llwyddiannus o ran cynrychioli eu hysgol fel Cennad Ifanc.

Cynllun Hyfforddwyr y Dyfodol

Mae 'Hyfforddwyr y Dyfodol' yn rhan o raglen etifeddiaeth Olympaidd Bro Morgannwg i helpu i ysbrydoli cenhedlaeth o gyfranogwyr a hyfforddwyr.

Nod y rhaglen yw cyflwyno pobl i hyfforddiant a gwirfoddoli mewn chwaraeon, dawns a gweithgareddau corfforol eraill. Mae'n rhoi hyfforddiant a phrofiad uniongyrchol o hyfforddi mewn ysgolion a/neu'r gymuned.

Mae'r cynllun wedi bod ar waith ers sawl blwyddyn. Mae wedi gweld nifer o hyfforddwyr yn cwblhau'r cynllun, gan gynnwys pobl sydd â nodweddion gwarchoddedig, sydd wedi cael eu cynrychioli'n llai yn y gorffennol.

Cyrsiau Arweinwyr

Mae Tîm Datblygu Chwaraeon y Fro yn cynnig ystod o gyrsiau arweinyddiaeth i hyfforddwyr posibl. Gall y rhain gael eu haddasu i ddiwallu anghenion y dysgwr. Mae nifer o bobl wedi mynychu'r cyrsiau hyn dros y flwyddyn ddiwethaf, gydag amrywiaeth eang o ddysgwyr yn mynychu.

Chwaraeon Anabledd

Mae Adran Chwaraeon a Datblygu Chwarae Bro Morgannwg wedi'i hachredu'n Efydd gan Insport ac yn gweithio tuag at achrediad Arian. Mae'r Tîm yn dangos ymrwymiad i fod yn gynhwysol yn ei bolisïau, ei gynlluniau, a'i raglenni gweithgarwch. Rhaglen genedlaethol yw Insport ar gyfer Adrannau Datblygu Chwaraeon ym mhob awdurdod lleol. Mae'n eu helpu iddynt arddangos sut y mae eu rhaglenni yn agored i amrywiaeth eang o bobl.

Mae'r swydd Swyddog Datblygu Chwaraeon Anabledd Cymru yn rôl rhan amser. Rydym yn derbyn cyllid grant i gefnogi'r rôl hon. Nod y rôl yw gweithio gyda nifer o bartneriaid a sefydliadau i gynyddu nifer y bobl anabl sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon a

gweithgareddau corfforol. Mae partneriaid a sefydliadau yn gweithio gyda Swyddog Datblygu Chwaraeon Anabledd Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys ysgolion a chlybiau cymunedol. Gall Swyddog Datblygu Chwaraeon Anabledd Cymru gynnig cyngor ar ffyrdd o fod yn gynhwysol.

Gall y swyddog hefyd helpu pobl i ddatblygu sgiliau i arwain gweithgareddau chwaraeon anabledd. Rydym wedi cynnal nifer o gyrsiau Ymwybyddiaeth Anabledd. Mae'r rhain yn cynnwys: Hyfforddiant Cynhwysiant Anabledd - Plant Actif i Bawb (staff ysgol); Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Awtistiaeth ar gyfer Arweinwyr Chwaraeon; a menter ar gyfer disgyblion ysgolion cynradd sy'n cael ei hadnabod fel Hyfforddiant Bach ar Gynhwysiant Anabledd.

Mae 63 o wahanol fathau o glybiau chwaraeon a grwpiau sy'n cynnig cyfleoedd chwaraeon i ystod amrywiol o bobl, gan gynnwys y rheiny sydd ag anableddau. Mae nifer o'r clybiau hyn wedi cyflawni'r Achrediad Clybiau Insport yn ystod 2018 / 19:

- Mae 4 Clwb wedi cyflawni'r Safon Arian;
- Mae 4 Clwb wedi cyflawni'r Safon Efydd;
- Mae 9 Clwb wedi cyflawni'r Safon Rhuban.

Rydym yn cynnal Gwersi 'Swimability' yng Nghanolffannau Hamdden y Barri, Penarth a Llanilltud Fawr. Mae'r gwersi hyn yn addysgu nofio i blant 5 oed a hyn.

Rydym yn gweithio gyda Rhaglen ID Talent Chwaraeon Anabledd Cymru. Rydym wedi adnabod athletwyr talentog ac wedi trosglwyddo'r wybodaeth hon i'r Swyddog Talent ID. Mae'r cynllun hwn yn cynnig hyfforddiant o'r radd flaenaf, mentora a chyngor ychwanegol i'r athletwyr hyn.

Mae Adran Chwaraeon a Datblygu Chwarae'r Fro yn ymfalchïo mewn creu cyfleoedd teg i bobl anabl gymryd rhan mewn chwaraeon. Rydym yn sicrhau bod hyn yn digwydd mewn amgylchedd sy'n addas i ystod o anghenion unigol.

Cyflwynwyd project newydd i'r Fro i godi ymwybyddiaeth o gynhwysiant mewn Chwarae a Gweithgarwch Corfforol ymhlith disgyblion oed cynradd. Cafodd 'Admiral Play Together' ei gyflwyno o fewn 11 o ysgolion cynradd a 3 grŵp sgowtiaid a oedd yn cael effaith ar 1190 o ddisgyblion.

Menywod a merched

Fel rhan o'n cynllun chwaraeon, mae gennym gynllun o'r enw 'Menywod a Merched yn Symud'. Ei nod yw cael mwy o fenywod a merched i gymryd rhan mewn chwaraeon. Mae hyn yn flaenoriaeth i un o'n noddwyr, Chwaraeon Cymru, ac i'n cynllun chwaraeon ein hunain.

Fel rhan o'r project 'Menywod a Merched yn Symud', cymerodd 1494 o fenywod a merched ran mewn sesiynau (drwy 8,858 o gyfranogiadau). Ymhlith y cyfleoedd mae: Yn ôl i bêl-rwyd, cysylltiadau clwb ysgol, rhedeg a beicio cymdeithasol, rygbi, pêl-droed,awns, a datblygiadau gymnasteg o fewn y Geidiaid. Rydym wedi hyfforddi 39 o hyfforddwyr ac arweinwyr newydd i barhau i annog menywod a merched i gymryd rhan mewn chwaraeon.

Mae canlyniadau'r Arolwg Chwaraeon Ysgol yn amlygu'r canlyniadau cyfranogi diweddaraf ar gyfer merched yn y Fro. Mae'r canlyniadau hyn wedi dangos bod y bwlch rhwng y dynion a'r merched sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon ysgol wedi lleihau, sy'n arwydd cadarnhaol bod yr ymyriadau'n cael effaith.

Cymuned PDdALIE

Gall unrhyw un ymuno yn ein gweithgareddau chwaraeon. Fodd bynnag, mae rhai o'n gweithgareddau wedi denu unigolion o grwpiau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn arbennig. Mae hyn yn cynnwys Clwb y Merched sy'n cael ei redeg yn Ysgol Gyfun St Cyres. Mae'r merched yn teimlo'n fwy cyfforddus yn cymryd rhan mewn gweithgareddau lle nad yw bechgyn yn cymryd rhan.

Y Gymraeg

Fel rhan o'r Cynllun 5 x 60, rydym yn cynnal gweithgareddau yn Ysgol Gyfun Bro Morgannwg. Cafwyd 3800 o gyfranogiadau drwy'r Cynllun 5 x 60 ar gyfer disgyblion Cymraeg eu hiaith. Roedd ychydig o dan 50% o'r rhain gan ferched. Mae ysgolion cynradd Cymraeg eu hiaith hefyd yn rhan o'r rhaglen Chwaraeon Iau. Bu gostyngiad mewn cyfranogiad oherwydd anawsterau wrth recriwtio hyfforddwyr iaith Gymraeg.

Ategir hyn gan waith Menter Iaith Bro Morgannwg. Mae Menter Iaith Bro Morgannwg yn darparu amrywiaeth o weithgareddau cymunedol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ar

draws Bro Morgannwg. Mae'r rhain yn cynnwys cynllun chwarae yn ystod y gwyliau, amrywiaeth o glybiau wythnosol a gweithgareddau i deuluoedd (amser stori, amser synhwyraidd babanod, cerddoriaeth twdlod) a phlant (drama, nofio, chwaraeon), teithiau cerdded tymhorol i'r teulu a chwarae mynediad agored "Bwrlwm".

Mae Bwrlwm yn gyfle chwarae mynediad agored, rhad ac am ddim a ddarperir mewn amrywiaeth o leoliadau ledled y Fro sy'n galluogi plant nad oes ganddynt fynediad at gyfleoedd siarad Cymraeg y tu allan i'r ysgol, i chwarae a chymdeithasu gyda ffrindiau ysgol neu ffrindiau newydd mewn amgylchedd lle mae'r Gymraeg yn cael ei siarad. Mae hyn yn galluogi llawer o blant o gymunedau mwy difreintiedig i gael mynediad at chwarae rhydd yn ystod gwyliau'r ysgol, ac mae rhieni'n ei werthfawrogi'n fawr. Er enghraifft:

"Mae'n helpu rhieni fel fi sydd ddim yn siarad Cymraeg i gael rhywle y gall fy mhlentyn fynd iddo i gynnal a chadw'r iaith yn ystod gwyliau'r ysgol. Alla i ddim fforddio'r clybiau a dwi wedi gorfod gweithio'r rhan fwyaf o'r haf. Roedd y clwb hwn yn golygu y gallai fy mab gael hwyl, gwneud ffrindiau newydd a chynnal ei Gymraeg, wrth i mi weithio. Yr oedd yn wych i ni yr haf hwn."

Roedd Menter Iaith Bro Morgannwg hefyd yn gallu cynnig cinio pecyn rhad ac am ddim ar ddiwedd pob sesiwn yn ystod gwyliau hanner tymor mis Hydref i'r plant fel rhan o fenter beilot gan Lywodraeth Cymru 'Newyn Gwyliau'.

Arall

Fel rhan o'r cynllun chwaraeon a gweithgarwch corfforol, targedwyd grwpiau eraill: y rhai sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig; pobl hŷn; a phobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig. Roedd hyn yn cynnwys 'Pobl Hŷn yn Fwy Egniol', 'Chwaraeon Trothwy'r Drws' (Llandochoau, y Rhws, a'r Barri) a phrojectau iechyd meddwl. Cefnogwyd projectau cyfredol gennym hefyd drwy bartneriaethau â sefydliadau fel Newydd Housing.

Mynd i'r afael ag Anghydraddoldeb

Rydym yn rheoli'r gronfa Cist Gymunedol. Rydym yn cael hyn gan Chwaraeon Cymru. Gall clybiau ymgeisio am arian i gynyddu cyfleoedd chwaraeon yn y gymuned. Gall y clybiau

ddefnyddio peth o'r arian hwn i ddelio ag anghydraddoldeb. Mae hyn yn helpu i wella cyfleoedd ar gyfer gwahanol grwpiau gan gynnwys:

- pobl o gefndiroedd Du, Asiaidd neu Ieiafrifoedd ethnig;
- merched a genethod;
- pobl anabl; a
- phobl o ardaloedd difreintiedig.

Hyrwyddo Chwaraeon

Rydym yn defnyddio lluniau o grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli wrth hyrwyddo ein chwaraeon. Rydym yn gobeithio bod hyn yn annog amrywiaeth eang o bobl i gymryd rhan mewn chwaraeon.

Atgyfeirio Ymarfer Corff

Rydym yn cynnal cynllun atgyfeirio i ymarfer corff. Dyma le mae doctoriaid yn cyfeirio pobl atom ni i'w helpu i wella o salwch neu anaf. Mae'r cynllun hwn ar agor i bawb ac mae'n denu defnydd helaeth o grwpiau gwarchoddedig.

Parciau

Rydym yn falch iawn bod gennym ddeg o barciau 'baner werdd'. Mae'n rhaid i ni ddangos ymrwymiad i gydraddoldeb fel rhan o'r asesiad i gael baner werdd ar gyfer parc. Rydym wedi gwneud gwahanol bethau mewn gwahanol barciau i gyflawni hyn. Mae'r pethau yr ydym wedi eu gwneud yn cynnwys:

- gwella mynediad i bobl anabl;
- darparu offer chwarae arbenigol;
- darparu cyfleoedd profiad gwaith i grwpiau gwarchoddedig, fel y rheiny sydd ag anawsterau dysgu.

Gwasanaethau Etholiadol

Yn cyfrannu at Amcan Cydraddoldeb 4.

Er mwyn annog trigolion cymwys Bro Morgannwg i gofrestru i bleidleisio, mae'r Tîm Cofrestru Etholiadol wedi ymgymryd â gweithgareddau amrywiol i sicrhau bod cofrestru i bleidleisio ar gael i bawb, gan gynnwys:

- digwyddiad #pleidlais100 – codi ymwybyddiaeth i fenywod i gofrestru i bleidleisio a defnyddio'u pleidlais.
- Digwyddiad Cydraddoldeb – sesiynau gweithdy gydag ysgolion, Ieuenctid Mawr, y Tîm Cyfranogiad Ieuenctid, grwpiau Ieuenctid amrywiol, cynrychiolwyr Gwasanaethau Cymdeithasol, Cynulliad Cymru a'r Comisiwn Etholiadol i ymgysylltu ar gyfleoedd i bobl ifanc gofrestru i bleidleisio.
- Ffair Swyddi - stondin gofrestru i hyrwyddo cofrestru i bleidleisio a phwysigrwydd bod ar y gofrestr etholiadol.
- Picnic a Chwarae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd – stondin cofrestru i hyrwyddo cofrestru i bleidleisio a phwysigrwydd bod ar y gofrestr etholiadol.
- Diwrnod y Lluoedd Arfog - ymgyrch cyfryngau cymdeithasol i gynyddu ymwybyddiaeth aelodau o'r Lluoedd Arfog o'u hawl i gofrestru i bleidleisio.
- Diwrnod Rhyngwladol Ieuenctid - ymgyrch cyfryngau cymdeithasol i gynyddu ymwybyddiaeth o'r diwrnod a chysylltu hyn â phobl ifanc yn cofrestru i bleidleisio.
- Ffair y Glas - stondin ar gyfer anogaeth i gofrestru a chyfle i ofyn cwestiynau.
- Wythnos Democratiaeth Leol - ymgyrch cyfryngau cymdeithasol yn hyrwyddo cofrestru i bleidleisio'n gyffredinol i bawb.
- Wythnos Senedd y DU – hyrwyddo digwyddiad sy'n gysylltiedig â gweithdai Cydraddoldeb.

- Ysgolion – gwahoddiad i bob ysgol i'r Tîm Cofrestru Etholiadol wneud cyflwyniad iddynt mewn gwasanaethau boreol, darparu gweithdai a chynnig sesiynau cofrestru i annog trigolion iau i gofrestru i bleidleisio.
- Diverse Cymru – mynychu cyfarfodydd i godi ymwybyddiaeth o gofrestru etholiadol a gweithio mewn partneriaeth ar y cyd.
- Cartrefi Preswyl a Gofal - canfasio cymorth chwarterol sy'n cynnig gwasanaeth un i un i gefnogi preswylwyr mewn cartrefi gofal neu gartrefi preswyl ar sut i gofrestru i bleidleisio.
- Hosteli - cefnogaeth reolaidd yn cynnig gwasanaeth un i un i gefnogi preswylwyr mewn hosteli ar sut i gofrestru i bleidleisio.

Rhaglen Dysgu Cymraeg yn y Fro

Yn cyfrannu at Amcan Cydraddoldeb 4.

Ariennir rhaglen Rhaglen Dysgu Cymraeg yn y Fro gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ar ran Llywodraeth Cymru. Mae'n darparu dosbarthiadau Cymraeg i oedolion ar bob lefel o ddysgu ar draws y Fro.

Mae'r cyrsiau ar gael i bob oedolyn sy'n 16 oed ac yn hŷn. Mae cymhorthdal grant ar gael ar gyfer y cyrsiau. Mae dysgwyr yn talu £90 ar gyfer cyrsiau prif ffrwd sy'n para am 30 wythnos. Ar gyfer dysgwyr sydd ar fudd-daliadau prawf modd, mae consesiwn o 40%.

Gall pob dysgwr wneud cais i'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol am daliadau o gronfa ariannol wrth gefn. Gall hyn dalu costau ychwanegol mynychu dosbarthiadau fel costau teithio a gofal plant.

Rydym yn cynnig cyrsiau rhagflas yn rhad ac am ddim. Rydym yn darparu cyrsiau blasu am ddim i rieni mewn rhai ysgolion, mewn partneriaeth ag Yn ôl ar y Trywydd Iawn a Chychwyn Cadarn.

Mae rhai disgowntiau ychwanegol yn berthnasol ar adegau penodol o'r flwyddyn, megis y gostyngiad o 20% ar gyfer y cyntaf i'r felin. Mae dysgwyr fel arfer yn talu ar-lein drwy wefan Dysgu Cymraeg / Learn Welsh. Fodd bynnag, mae'r swyddfa Dysgu Cymraeg / Learn Welsh hefyd yn derbyn taliadau arian parod a siec, a gall, yn ôl disgrisiwn y rheolwr, wneud trefniadau i ddysgwyr dalu mewn rhandaliadau lle mae ganddynt anawsterau ariannol.

Mae'r trefniadau hyn yn helpu i wneud cyrsiau Cymraeg yn agored i amrywiaeth eang o bobl.

Meini prawf cofrestru

Gall unrhyw oedolyn gofrestru ar gwrs Cymraeg beth bynnag fo'i gefndir ieithyddol. Mae staff profiadol yn cynnig gwiriad lefel gallu a chynghor am ddim o ran pa lefel sy'n briodol. Rydym yn croesawu pobl sy'n gadael yr ysgol ac oedolion eraill sydd am ailgydio yn eu defnydd o'r iaith. Rydym yn eu cefnogi drwy gyrsiau a digwyddiadau cymdeithasol sy'n cynnwys digwyddiadau cymdeithasol, dathliadau a darpariaeth deuluol.

Rydym yn annog dysgwyr datblygedig i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol mewn grwpiau Cymraeg lleol fel Merched y Wawr a Chymrodorion y Barri. Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn cefnogi'r rhaglen Siarad. Mae'r rhaglen hon ynparu dysgwyr gyda siaradwr Cymraeg rhugl er mwyn treulio amser yn sgwrsio a chymdeithasu yn Gymraeg.

Hyblygrwydd

Rydym yn cynnig ystod o gyrsiau yn ystod y dydd a gyda'r nos i wneud y mwyaf o gyfleoedd. Rydym hefyd yn cynnig cyrsiau mewn amryw o leoliadau ledled Bro Morgannwg i gefnogi'r rheini mewn ardaloedd gwledig. Mae'r rhan fwyaf o leoliadau'n hygyrch ar drafnidiaeth gyhoeddus.

Meithrinfa

Rydym yn cynnig meithrinfeydd am ddim mewn prif ganolfannau i rieni a gofalwyr sy'n mynychu dosbarthiadau yn ystod y dydd. Mae hyn yn galluogi pobl i fanteisio ar gyfleoedd dysgu a hyfforddiant gyda chymorth gofal plant. Rydym yn amserlennu cyrsiau i ganiatáu i rieni drefnu hyn o gwmpas amserau plant yn yr ysgol.

Partneriaeth

Rydym yn gallu hyrwyddo cyfleoedd dysgu i gymunedau ledled y Fro drwy weithio mewn partneriaeth ag amrywiaeth o sefydliadau a rhanddeiliaid. Mae digwyddiadau partneriaeth a chyfryngau cymdeithasol yn helpu i sicrhau bod gwybodaeth yn hygyrch i bawb.

Mynediad Anabledd

Mae pob canolfan yn hygyrch i ddefnyddwyr gwasanaeth sy'n anabl ac mae ganddynt fynediad priodol at gyfleusterau fel lifftiau, rampiau a thoiledau. Mae offer ychwanegol ar gael i gefnogi dysgwyr sydd â nam ar y synhwyrau, megis dolenni clyw, lampau, ac allweddellau wedi'u haddasu.

Dysgu Teuluol

Mae grant ychwanegol gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn talu am y project arloesol, Clwb Ni – clwb gwaith cartref dwyieithog a chyfrwng Cymraeg i blant yn yr ysgol Gymraeg a'u rhieni. Mae'r clwb yn cael ei redeg yn ardal Palmerston yn y Barri. Mae'n darparu lluniaeth a byrbrydau am ddim i deuluoedd yn ogystal â gweithgareddau i bob oedran i gefnogi datblygiad iaith.

Cyfrwng Cymraeg

Mae Dysgu Cymraeg yn y Fro yn cefnogi'r rhaglen Yn ôl ar y Trywydd lawn. Mae'n darparu cyrsiau addysg oedolion drwy gyfrwng y Gymraeg. Rydym yn darparu rhai cyrsiau a digwyddiadau rheolaidd i oedolion a'u teuluoedd i gyfathrebu yn Gymraeg ac i ymarfer a gwella eu sgiliau iaith Gymraeg.

Anghenion Dysgu Ychwanegol

Wrth gofrestru ar gyfer cyrsiau, mae'r dysgwyr yn cael cyfle i ddatgan bod ganddynt anghenion o ran eu cyflwr neu anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r wybodaeth hon ar gael i staff rheoli Dysgu Cymraeg yn y Fro.

Rydym yn hyfforddi tiwtoriaid i addasu eu dulliau i sicrhau eu bod yn cynnwys yn llawn y dysgwyr sydd ag anghenion ychwanegol mewn gweithgareddau dysgu. Os yw'r angen hwnnw'n cynnwys darparu deunyddiau wedi'u haddasu, mae staff swyddfa Dysgu

Cymru yn cefnogi'r tiwtor drwy, er enghraifft, gynhyrchu adnoddau print bras ar gyfer dysgwyr sydd â nam ar eu golwg.

Mae gennym swyddog arholiadau sy'n trefnu ystyriaethau arholi yn ôl yr angen ar gyfer dysgwyr sy'n sefyll arholiadau Cymraeg i Oedolion CBAC.

Gwerthuso Swyddi

Yn cyfrannu at Amcan Cydraddoldeb 8.

Mae gennym gynllun gwerthuso swyddi ar waith. Mae'r cynllun hwn ar gyfer staff a delir dan y cytundeb cyfunol Statws Sengl. Mae'n sicrhau bod ffordd systematig o benderfynu ar gyflog a gradd ar gyfer swydd. Mae hyn yn arwain at dâl cyfartal o werth cyfartal. Mae canlyniadau gwerthusiad swydd wedi'u cysylltu â'n system gyflog a graddio. Sefydlwyd system gyflog a graddio ffurfiol ym mis Mawrth 2012 ar ôl cwblhau proses gwerthuso swyddi helaeth. Mae wedi ein helpu i dalu pobl yn deg ac mewn ffordd gyson.

Mae ffactorau eraill sy'n effeithio ar dâl pobl megis y math o swyddi maen nhw'n dewis eu gwneud. Mae dynion a merched yn aml yn dewis gwneud swyddi y mae dynion a merched wedi eu gwneud yn draddodiadol. Gelwir hyn yn arwahanu galwedigaethol. Mae'n aml yn ffactor o ran y bwch cyflog rhwng dynion a menywod – sef y bwch cyflog rhwng y rhywiau.

Fel rhan o'n Cynllun Gweithlu, rydym yn parhau i edrych am ffyrdd o leihau'r bwch cyflog rhwng y rhywiau. Ers 2012, rydym yn asesu swyddi newydd a newidiol trwy ein system gwerthuso swyddi. Fel rhan o hyn, rydym yn ystyried nifer o ffactorau, gan gynnwys y wybodaeth, y sgiliau a'r profiad sydd angen ar bobl i wneud y swydd. Mae llawer o newidiadau fel hyn wrth i ni ad-drefnu ein hadrannau a meddwl am y ffordd orau o wneud ein gwaith. Mae defnyddio'r dull hwn yn cadw'r system gyflog a graddio'n deg a chyson.

Y Cynllun Gweithlu (2016 - 2020)

Yn cyfrannu at Amcan Cydraddoldeb 8.

Mae gennym gynllun gweithlu ar gyfer y cyfnod 2016 – 2020. Mae'r cynllun hwn yn sicrhau bod gennym:

- y bobl gywir;
- gyda'r sgiliau cywir;
- yn y lle cywir;
- ar yr adeg gywir.

Mae hyn yn ein helpu i barhau i ddarparu ein gwasanaethau ar adeg pan mae heriau ariannol mawr a galw cynyddol am ein gwasanaethau. Rydym yn bwriadu sicrhau bod ein gweithlu yn debyg i wneuthuriad y gymuned leol o ran y grwpiau gwarchodedig.

Rydym wedi rhoi mewn lle ffordd o gofnodi nodweddion gwarchodedig ein staff. Mae hyn yn golygu ein bod yn gallu cymharu ein hystadegau gydag ystadegau lleol a chenedlaethol i weld pa gynnydd yr ydym yn ei wneud. Yna gallwn gynllunio sut i wneud gwelliannau.

Fel rhan o'r cynllun gweithlu, mae gennym strategaeth i edrych ar gynyddu nifer y gweithwyr 16 – 24 oed. Mae ffocws hynny ar gael mynediad at hyfforddiant a chreu cyfleoedd drwy daliadau ardoll prentisiaethau. Mae hyn yn ein galluogi i gynnig cyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth o ansawdd i'r grŵp oedran 16-24.

Fel rhan o'r strategaeth, rydym yn meithrin cydberthnasau ac yn datblygu cynigion gyda darparwyr lleol, gan gynnwys Coleg Caerdydd a'r Fro. Rydym yn ymdrechu i gynnig yr ystod lawn o brentisiaethau sydd ar gael yng Nghymru. Rydym wedi rhoi system ar waith ar gyfer rhestru swyddi newydd. Rhaid i reolwyr cyflogi holi'r Tîm Datblygu a Dysgu Sefydliadol a allai'r rôl fod yn addas ar gyfer prentisiaeth. Mae'r cynllun prentisiaeth yn cael ei hyrwyddo y tu mewn a thu allan i'r sefydliad.

Gwybodaeth benodol ynghylch cyflogaeth, gan gynnwys gwybodaeth ar hyfforddiant a chyflog

Rydym wedi bod yn casglu data cyflogaeth am nifer o flynyddoedd. Rydym wedi casglu gwybodaeth ar y nodweddion gwarchoddedig canlynol:

- rhyw;
- hil;
- anabledd; ac
- hoedran.

Rydym wedi parhau i ddatblygu systemau newydd. Bydd hyn yn gadael i ni adrodd ar fwy o nodweddion gwarchoddedig yn y dyfodol. Byddwn yn gallu casglu a chofnodi gwybodaeth ar:

- cyfeiriadedd rhywiol;
- ailbennu rhywedd;
- hunaniaeth rywiol;
- hunaniaeth genedlaethol;
- crefydd neu gred; a
- statws priodasol.

Roedden ni eisiau canolbwyntio ar gamau allweddol. I'n helpu ni, defnyddiom ganllawiau gan Lywodraeth Cymru. Enw'r canllaw yw 'Collecting Equality Data: Harmonised Standards and Best Practice'.

Newidiom y ffurflen a ddefnyddiwn i gasglu gwybodaeth am bobl pan fônt yn ymgeisio am swyddi. Rydym nawr yn gofyn am nodweddion gwarchoddedig ar y ffurflen. Gallwch weld y ffurflen yn [Atodiad 3](#)

Fe wnaethon ni lunio arolwg staff, Fe wnaethom ddefnyddio hwn i ofyn i staff am eu nodweddion gwarchoddedig. Fe wnaethon ni wella'r ffordd yr ydym yn cofnodi'r wybodaeth hon. Mae gwneud hyn yn helpu i wella'r hyn yr ydym yn ei wybod am y grwpiau gwarchoddedig o fewn ein gweithlu.

Rydym wedi edrych ar y wybodaeth a gasglwyd. Gallwch weld yr hyn a ddysgon ni yn [Atodiad 5](#) o'r adroddiad hwn. Ceir crynodeb o'r penawdau yn ôl nodweddion gwarchoddedig isod.

Oedran

- Ers 2015/2016, mae cynnydd amlwg yn nifer y bobl a gyflogwn yn y grwpiau 60+ ond gostyngiad yn nifer y bobl rhwng 16 a 24 oed.
- Cafwyd gostyngiad bach yn y cyflog cyfartalog ar gyfer gweithwyr yn y grwpiau oedran 16-19 a 30-34. Cynyddodd cyflog cyfartalog pobl mewn ystodau oedran eraill.
- Pobl rhwng 35 a 39 oed oedd â'r cyflog cyfartalog uchaf sy'n aros yr un fath.
- Oherwydd y cynnydd yn nifer y prentisiaid sy'n gweithio i'r awdurdod erbyn hyn, bu cynnydd yn y band cyflog £0 i £14,999.
- Y gyfran uchaf o bobl oedd yn mynychu hyfforddiant oedd y grŵp oedran 50-54 gyda 249 neu 15.4%. Mae hyn yn newid o'r flwyddyn flaenorol lle roedd y gyfran uchaf o bobl yn mynychu hyfforddiant yn 55-59 oed ar 132 neu 16.6%.
- Roedd y ganran uchaf o geisiadau yn y band oedran 25-29 (17.3%).
- Bu cynnydd yng nghanran y ceisiadau yn y grwpiau oedran 16-19 a 50-54.

- Roedd y rhan fwyaf o'r bobl a adawodd rhwng 50 a 54 oed (13.7% a chynnydd dros 8.3 y llynedd). Gadawodd lai o bobl yn y grwpiau oedran 16-19, 20-24, 35-39, 45-49 a 65+.

Anabledd

- Nid oedd gan 83% o'n staff anabledd. Dywedodd 2.5% fod ganddynt anabledd a oedd yn cyfyngu ychydig arnynt; Dywedodd 0.4% fod ganddynt anabledd a oedd yn cyfyngu llawer arnynt.
- Mae'r cyflog cyfartalog ar gyfer pobl sydd ag anabledau sy'n cyfyngu ychydig arnynt neu'n eu cyfyngu lawer wedi gostwng ers y flwyddyn flaenorol. Mae'r rhai sydd wedi dweud wrthym nad oes ganddynt anabledd, nad ydynt wedi'i gofnodi, sy'n well ganddynt beidio â dweud, neu sydd ag anabledd, oll wedi cynyddu eu cyflog cyfartalog ers y flwyddyn flaenorol.
- Y cyflog cyfartalog ar gyfer y rhai a ddywedodd fod ganddynt anabledd oedd £27,562 o'i gymharu â £24,070 ar gyfer pobl heb anabledd, £25,556 ar gyfer y rhai ag anabledd a oedd yn cyfyngu ychydig arnynt, a £24,400 i'r rheini ag anabledd a oedd yn cyfyngu llawer arnynt.
- Roedd gan 3.6% o'r bobl a fynychodd hyfforddiant anabledd a oedd yn eu cyfyngu i ryw raddau.
- Dywedodd llai o ymgeiswyr nad oedd ganddynt anabledd (87.2%). Mae hyn yn ostyngiad ar y flwyddyn flaenorol (90.5%).
- Roedd nifer yr ymadawyr a ddywedodd fod ganddynt anabledd a oedd yn eu cyfyngu i ryw raddau wedi gostwng ers y flwyddyn flaenorol.

Ailbennu rhywedd

- Bu cynnydd yn nifer y cyflogeion a ddewisodd nodi eu rhywedd adeg eu geni o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Statws priodasol

- Roedd mymryn dan hanner o'n cyflogeion yn briod (48.2%) ac roedd tua thraean o'n cyflogeion yn sengl (31.5%).

Mamolaeth, Tadolaeth a Mabwysiadu

- Roedd 70 o gyflogeion a gymerodd absenoldeb a chyflog mamolaeth, tadolaeth neu fabwysiadu yn ystod 2018/19. Mae'r nifer hwn wedi gostwng 18 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.
- Cafodd 46 o bobl hyfforddiant yn yr un flwyddyn ag y cawsant absenoldeb mamolaeth, tadolaeth neu fabwysiadu. Mae hyn yn gynnydd mawr dros yr 20 o bobl o'r flwyddyn flaenorol.

Hunaniaeth Genedlaethol

- Dywedodd y rhan fwyaf o gyflogeion eu bod yn Brydeinig neu'n Gymry.
- Nododd y rhan fwyaf o ymgeiswyr eu bod yn Brydeinig neu'n Gymry. Bellach, y nifer o ymgeiswyr a ddywedodd eu bod yn Brydeinwyr yw'r hunaniaeth uchaf o ran ymgeiswyr, sef 51%. Mae hyn wedi cynyddu o 847 i 1494.

Hil ac ethnigrwydd

- Roedd y rhan fwyaf o'r cyflogeion yn Wyn - dros 87%, sy'n gynnydd bychan ar y flwyddyn flaenorol.
- Ar gyfer pobl sydd â chefnidir ethnig Gwyn, cynyddodd y cyflog i'r rhai mewn saith o'r naw grŵp ers y flwyddyn flaenorol. Dim ond Gwyn a Du Caribiaidd a Gwyn Arall a gafodd ostyngiad.

- Roedd gostyngiad mewn cyflog i bobl yn y grwpiau Cymysg eraill ac Affricanaidd. Bu cynnydd mewn cyflog i'r holl grwpiau ethnig eraill a'r rhai a ddewisodd beidio â datgelu neu beidio â chofnodi eu hethnigrwydd.
- Y gwahaniaeth yn y gyfradd gymedrig fesul awr rhwng Gwyn Prydeinig a Lleiafrifoedd Ethnig yw £0.56 (£13.20 ar gyfer Gwyn Prydeinig a £12.64 ar gyfer Lleiafrifoedd Ethnig) sy'n ostyngiad o gymharu â'r llynedd (£12.74 ar gyfer Gwyn Prydeinig a £12.07 ar gyfer Lleiafrifoedd Ethnig). Y bwlch cyflog cymedrig ar gyfer ethnigrwydd fel canran yw 4.24%.
- Y gwahaniaeth yng nghyfradd canolrif yr awr rhwng Gwyn Prydeinig a Lleiafrifoedd Ethnig yw £0.40. Y bwlch cyflog canolrifol o ran ethnigrwydd fel canran yw 3.62%.
- Roedd 73% o'r cyflogeion a oedd yn derbyn hyfforddiant yn Wyn ac yn Brydeinig.
- Mae Gwyn a Phrydeinig yn parhau i fod y categori uchaf ar gyfer ymgeiswyr ar 74.9%. Roedd dros 90% o bobl a ymgeisiodd am swyddi yn Wyn.
- Roedd dros 88% o'r rhai a adawodd yn wyn. Bu cynnydd yng nghanran y rhai sy'n gadael sy'n Wyn ac yn Brydeinig, sydd dal i fod y grŵp ethnig mwyaf ar gyfer ymadawyr, sef ar 69.5%.

Crefydd neu gred

- Roedd gan y rhan fwyaf o'r staff naill ai ddim crefydd (34.2%), yn Gristnogion (33%); neu ni wnaethant gofnodi eu crefydd neu gred (29.1%).
- Dywedodd y rhan fwyaf o ymgeiswyr nad oedd ganddynt grefydd (50.3%).
- Roedd gostyngiad yng nghanran yr ymgeiswyr a ddywedodd fod eu cred grefyddol yn Gristnogol (36.6% i 32%); a chynnydd yn y rhai a ddywedodd eu bod yn Fwslim (23% i 39%), Sikh ac yn dal credoau eraill.

Rhyw

- Roedd ein gweithlu yn 68.1% (1843) benywaidd a 31.9% (864) gwrywaidd. Aeth nifer y gweithwyr benywaidd i lawr o 1859 i 1843 a chynyddodd nifer y gweithwyr gwrywaidd o 845 i 864.
- Mae dros ddau draean o'r bobl rydym yn eu cyflogi yn fenywod. Mae'n arferol i fwy o fenywod weithio mewn awdurdodau lleol na dynion.
- Roedd ychydig yn llai o fenywod yn gyflogedig (1843) o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (1859) ac ychydig yn fwy o ddynion (864) o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (845).
- Roedd y rhan fwyaf o fenywod yn parhau i weithio mewn swyddi rhan-amser parhaol (798 o weithwyr yn 2018/2019). Mae hyn wedi gostwng o'r 820 yn y flwyddyn flaenorol. Gostyngodd nifer y dynion yn y swyddi rhan amser ers y flwyddyn flaenorol.
- Newidiodd cydbwysedd rhyw y prif swyddogion gydag un yn fwy o fenywod ac un yn llai o ddynion. Roedd menywod yn cynrychioli 47.9% o'r prif swyddogion.
- Roedd 48.2% o fenywod a 42.5% o ddynion yn dal swyddi â chyflog rhwng £15,000-£19,999. Mae 46.4% o'r holl swyddi yn cael eu talu rhwng £15,000 a £19,999.
- Bu mwy o gynnydd yng nghyflog cyfartalog menywod na dynion. Roedd hyn yr un fath â'r flwyddyn flaenorol. Bu cynnydd o £796 i ddynion o'i gymharu â chynnydd o £121 i fenywod.
- Y gwahaniaeth yn y gyfradd gymedrig fesul awr rhwng Dynion a Menywod yw £0.86 (£12.37 ar gyfer dynion a £10.65 ar gyfer menywod) sy'n ostyngiad o gymharu â'r llynedd (£12.13 ar gyfer dynion a £10.44 ar gyfer menywod). Y bwlch cyflog cymedrig rhwng y rhywiau fel canran cyflog dynion yw 6.24%. Mae hwn yn

is na'r ffigur ar gyfer y DU a nodir isod. Yn y DU y Bwlch Cyflog Cymedrig rhwng y Rhywiau yw 13.1% (Personnel Today).

- Y gwahaniaeth yn y gyfradd canolrifol fesul awr rhwng dynion a menywod yw £1.72. Y bwlch cyflog canolrifol rhwng y rhywiau fel canran cyflog dynion yw 13.90%. Mae hwn yn uwch na'r ffigur ar gyfer y DU a nodir isod. Yn y DU, y Bwlch Cyflog Canolrifol rhwng y Rhywiau yw 9.6% (Personnel Today).
- Roedd dros 71% o'r bobl a oedd yn derbyn hyfforddiant yn fenywod. Mae hyn wedi gostwng ers y flwyddyn flaenorol o 80.7%. Mae canran y bobl sy'n ddynion wedi cynyddu o 19.3% i 28.6%.
- Roedd dros ddau draean o'r bobl a ymgeisiodd am swyddi'n fenywod (66.11% neu 1931).
- Mae nifer y ceisiadau gan bobl na ddywedodd wrthym am eu rhyw wedi cynyddu.
- Gadawodd rhagor o fenywod na dynion eu swyddi. Byddwn ni'n disgwyl hyn gan ein bod yn cyflogi rhagor o fenywod na dynion. Cynyddodd canran y bobl a adawodd eu swyddi ac a oedd yn ddynion ar y flwyddyn flaenorol (37.1% o gymharu â 31%) a gostyngodd canran y bobl a adawodd eu swyddi ac a oedd yn fenywod (62.9% o gymharu â 69%).

Cyfeiriadedd rhywiol

- Dywedodd 67.2% o'n staff eu bod yn heterorywiol. Nid oedd llawer o newid yn y niferoedd a ddywedodd eu bod yn hoyw neu'n lesbiaidd. Mae mwy o staff wedi cofnodi eu bod yn ddeurywiol. Roedd llai o gyflogeion na oeddynt wedi nodi'u cyfeiriadedd rhywiol.
- Wrth edrych ar gyflog gweithwyr lesbiaidd, hoyw, neu ddeurywiol, cyflogwyd 47% yn y band cyflog £0 - £19,999.

- Rydym wedi dechrau monitro llwyddiant pobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol o'r cais swydd i gael eu penodi'n llwyddiannus. Ar gyfer 2018/2019, roedd 125 o geisiadau ac 20 o benodiadau llwyddiannus (16%) o gymharu â 10 allan o 82 yn y flwyddyn flaenorol (12%). Mae hyn yn cynnwys swyddi gwag mewnol ac allanol o fewn y Cyngor.
- Roedd canran yr ymgeiswyr a ddywedodd eu bod yn ddeurywiol, yn hoyw neu'n lesbiaidd wedi cynyddu ychydig i 3.8% o 2.7% yn y flwyddyn flaenorol.

Y Gymraeg

- Mae ychydig o dan draean o'n staff yn meddu ar ryw lefel o sgiliau iaith Gymraeg: deall 31.6%; siarad 26.4%; darllen 23.3%; ac ysgrifennu 17.9%.
- O'r gweithwyr hynny sydd â sgiliau iaith Cymraeg, y rhai sy'n gymwys neu'n dda yn y Gymraeg ar gyfer Deall a Siarad oedd â'r cyflog cyfartalog uchaf.
- Y Sgiliau Cymraeg ar gyfer ymgeiswyr oedd: deall 61.7%; siarad 28.8%; darllen 27.4%; ac ysgrifennu 23.3%.

Mae yna hefyd gynllun gweithredu ([Atodiad 6](#)). Mae'n dangos yr hyn yr ydym wedi'i wneud ers y flwyddyn flaenorol a'r hyn a wnawn i ddelio â phryderon yn y dyfodol.

Byddwn yn parhau â'r gwaith hwn. Rydym eisiau gallu adrodd ar yr holl nodweddion gwarchoddedig.

Nid oes gennym yr holl wybodaeth sydd angen i ni ei gasglu i ddiwallu'r dyletswyddau cyffredinol a phenodol. Mae'r rhesymau dros hyn fel a ganlyn:

- mae angen diweddarau systemau adrodd ymhellach;
- Mae rhai staff yn dewis peidio â datgelu gwybodaeth bersonol;

- mae angen casglu data ychwanegol a chyfoes ar anghenion nodweddion gwarchoddedig;
- mae canllawiau cyfyngedig yn golygu bod angen i ni esbonio'r hyn yr oedd rhaid i ni ei adrodd.

Rydym wedi gwella ein data ar yr iaith Gymraeg. Fe wnaethon ni gynnal arolwg ar gyfer pob aelod o staff i gael gwybodaeth gyfoes ar sgiliau Cymraeg. Roedd hyn er mwyn diwallu'r Safonau Iaith a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2016.

Hyd yn oed pan ydym yn gwneud y gwelliannau hyn, efallai na fyddwn yn cael y wybodaeth sydd ei hangen arnom. Rydym yn meddwl y bydd rhai pobl yn dewis peidio â dweud wrthym am rai o'u nodweddion gwarchoddedig. Rydyn ni'n annog pobl i wneud hynny drwy esbonio:

- pam ein bod yn gofyn am y wybodaeth hon; a
- sut y gallwn ei defnyddio i ddiwallu eu hanghenion yn well.

Daw'r wybodaeth ar gyfer yr adroddiad hwn o systemau yn Adnoddau Dynol. Mae hyn yn golygu bod y wybodaeth mor gywir a chyflawn â phosibl. Rydym yn gwybod y bydd angen i ni barhau i weithio ar y wybodaeth hon ar gyfer adroddiadau yn y dyfodol. Bydd hyn yn ein helpu i ddiwallu gofynion y ddyletswydd gyffredinol hon.

I gael rhagor o wybodaeth

Ewch i'n gwefan

www.bromorgannwg.gov.uk

Newyddion a Diweddariadau - yn syth i'ch mewnlwch

Gallwch danysgrifio i Cyswllt UnFro a chael y newyddion a'r wybodaeth ddiweddaraf am ddigwyddiadau ac ati, gan gynnwys negeseuon atgoffa gwastraff ac ailgylchu wythnosol. Cofrestrwch drwy wefan Cyngor Bro Morgannwg:

Cyfryngau Cymdeithasol

Cael y newyddion, digwyddiadau a gwybodaeth ddiweddaraf gan Gyngor Bro Morgannwg.

Dilynwch @VOGCouncil ar Twitter neu hoffwch Cyngor Bro Morgannwg ar Facebook. Os oes gennych ymholiad am wasanaethau'r Cyngor, cysylltwch â ni.

- Epost c1v@valeofglamorgan.gov.uk;
- neu ffoniwch 01446 700111